Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
# Adroddiad Blynyddol

System integredig o iechyd, gofal a lles i Went

## 2021/22

## Gweithio mewn Partneriaeth

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Health Board

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Monmouthshire County Council sir fynwy

Torfaen County Borough / Bwrdeistref Sirol Torfaen

Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd

TVA Torfaen Voluntary Alliance
Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
Actively supporting the contribution of individuals, through voluntary action.
Charity Registration No: 1097079
Company No: 4603713

GAVO
Gwent Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent

# Cynnwys


tud

**Rhagair** 4

**01. Mewnwelediadau gan Bartneriaid** 5

**02. Crynodeb Gweithredol** 7

**03. RHAN 1: Trosolwg llywodraethiant partneriaeth a datblygiad** 8

- Trosolwg Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Datblygiadau partneriaeth allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Cynnydd wrth gyflwyno newidiadau yng nghyfarwyddyd diwygiedig Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

**04. RHAN 2: Diweddariad cynnydd cyffredinol** 15

- **a)** Cyflenwad yn erbyn Amcanion Allweddol.
- **b)** Cefnogi Integreiddiad a Chyflenwad Gwell.

**05. RHAN 3: Cyfathrebu, Ymgysylltiad a Gwerth Cymdeithasol** 37

- Sut wnaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth.
- Sut wnaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hyrwyddo cydweithrediad a chyfranogiad â phartneriaid perthnasol.
- Sut wnaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys darparwyr y gwasanaeth o'r trydydd sector a'r sector annibynnol.
- Cynnydd i sefydlu fforymau gwerth cymdeithasol i hyrwyddo gwerth cymdeithasol a rhannu arfer da.

**06. RHAN 4: EDRYCH YMLAEN** 41

**07. Atodiad 1: Cofrestr o gyfarfodydd misol y BPRh** 42

**09. Atodiad 2: Aelodaeth BPRh Gwent** 43

**10. Atodiad 3: Porthol Dinasyddion Dewis** 44

**11. Atodiad 4: Datblygiad y Gweithlu** 46

**11. Annexe 5: Work Placements** 46

**11. Atodiad 6: Micro Care** 47

**12. Atodiad 7: Deddf Galluedd Meddyliol** 48

# Rhagair



Rwy'n ysgrifennu'r rhagair yma â phleser ar ôl fy ethol yn ddiweddar i Gadair BPRh Gwent. Yn gyntaf, hoffwn gydnabod ymroddiad, ymrwymiad a gwaith caled y Cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd Paul Cockeram, Cyngor Dinas Casnewydd. Cadeiriodd Paul y bwrdd a'i arwain dros y 3 blynedd ddiwethaf yn ystod pandemig Covid-19, ond, er gwaethaf yr heriau, bu bob amser yn rhoi anghenion trigolion a staff iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenaf ym mhob penderfyniad i wella'r gwasanaethau sydd ar gael i drigolion.

Mae heriau'r pandemig yn bresennol o hyd, er gwaethaf i ni symud allan o'r cyfnod clo. Mae "cynllunio'r gaeaf" wedi dod yn broses flwyddyn gyfan o ganlyniad i'r iechyd gwael cynyddol yn ein cymunedau. Mae ymdrechion staff iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gofal a chefnogaeth yn y fath amgylchiadau anodd wedi bod yn ysbrydoledig. Mae'n rhaid i'r BPRh, gyda phartneriaid, weithio'n agos gyda'i gilydd i oresgyn heriau a nodi ffyrdd newydd o weithio i gyflenwi cefnogaeth o ansawdd uchel i drigolion ar draws y rhanbarth.

Mae'r penderfyniadau yr ydym yn eu cymryd fel BPRh yn seiliedig ar waith partneriaeth a pherthnasau partner da. Mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd, ond byddaf yn sicrhau pob amser fel Cadeirydd ein bod ni'n cyrraedd consensws a bod lleisiau'r partneriaid i gyd yn cael eu hystyried, yn enwedig llais trigolion. Mae pobl ar draws y rhanbarth yn wynebu heriau ychwanegol o ganlyniad i'r argyfwng ariannol diweddar. Mae'r angen i weithio'n agos ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector o'r pwys mwyaf datblygwyd y BPRh i sicrhau synergedd a lleihau dyblygu, ac rwy'n teimlo bod gennym y weledigaeth a'r dyhead ar draws y rhanbarth i'n helpu i fwrw ymlaen â chyd-gyflawni'n cyfrifoldebau.

**Ann Lloyd CBE**
Cadeirydd y BPRh a Chadeirydd BIPAB

# 1. Mewnwelediadau gan Bartneriaid

## Lorraine Morgan - Cadeirydd Panel Trigolion

“Dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd a hoffwn ddiolch yn gyntaf i’r rheiny sydd wedi mynychu’n cyfarfodydd Teams rhithwir yn ffyddlon. Nid yw hyn yn hawdd i rai ac rwy’n ymwybodol bod yna nifer o’n trigolion a ffrindiau ffyddlon dros y blynyddoedd nad ydynt yn defnyddio mannau cyfarfod rhithwir. Gadewch i ni obeithio y bydd sefyllfa eleni’n well ac y gallwn ddechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb o’r diwedd. Rydym hefyd wedi canolbwyntio’n fawr ar y materion sydd o bwys i ni i gyd ac rydym wedi cytuno ar eitemau rheolaidd i’w diweddaru ym mhob cyfarfod; Covid, Gollwng o Ysbytai, Diweddariad y Bwrdd Iechyd, Taliadau Uniongyrchol, Trafnidiaeth a Hyrwyddwyr Iechyd/Lles. Mae ein cyfarfodydd wedi bod yn amserol bob amser Er enghraifft, roedd ein cyfarfod diwethaf yn rhyngweithiol iawn gyda’r Comisiynydd Pobl Hŷn yn siarad am ei rôl a’i blaenoriaethau a’r Dr Liam Taylor o’r Bwrdd Iechyd yn rhoi’r diweddaraf am wasanaethau MT a mynediad atynt yn ystod ac ar ôl Covid. Yn fy rôl, rwy’n mynychu Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraeth Cymru i adolygu a mynd i’r afael rolau a chyfrifoldebau i Drigolion ac aelodau’r Bwrdd fel ei gilydd. Rwy’n gobeithio y gall ein dylanwad fel Bwrdd a Phanel Trigolion gweithgar effeithio ar sut mae trigolion yn cymryd rhan mewn integreiddiad iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau o ansawdd ar gyfer ardal Gwent. Rwy’n edrych ymlaen at flwyddyn well o iechyd i ni i gyd ac rwy’n diolch i’r bobl ymroddedig i gyd sy’n darparu’r gwasanaethau mewn Tai, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith wrth gefnogi ein lles parhaus.”

## Anne Evans - Swyddog Gweithredol Strategol, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen

“Daeth Pandemig Covid â heriau digyffelyb i ni i gyd ac mae hyn wedi parhau yn ystod 2022. Chwaraeodd y Trydydd Sector rhan gyfrannol anferth wrth gefnogi’n partneriaid a’n cymunedau ar ddechrau’r argyfwng ac mae hyn wedi parhau ar hyd y ffordd. Fel sy’n arferol, yn rhagweithiol ac yn adweithiol. Roedd y ffordd y daeth ein cymunedau i gefnogi’n gilydd yn destun gwyleidd-dra. Dangoswyd yn glir fod cydweithio mewn partneriaeth yn adlewyrchu’n harferion a’n cydweithrediadau gwaith. Bydd strwythurau’r BPRh yn helpu i gefnogi hyn yn y dyfodol.”

## Sally Ann Jenkins - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghasnewydd

“Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae profion y pandemig wedi parhau i effeithio ar ein gwaith ni i gyd Mae’r angen i weithio gyda’n gilydd a chydnabod cryfderau dull system gyfan wedi eu hategu gan gyfnodau parhaus o gyfyngiadau, y prawf sydd wedi bod ar ein gwasanaethau. Wrth i ni ddod allan o’r anawsterau’r pandemig, mae’r heriau’r sydd ar y gorwel o’r dirywiad economaidd yn dangos, unwaith eto, pwysigrwydd perthnasau cryf ar draws y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yn fwy helaeth gyda’n cydweithwyr mewn sefydliadau statudol a thrydydd sector. Bydd adeiladu ar ein perthnasau proffesiynol a dod â her adeiladol ochr yn ochr ag angerdd creadigol yn hanfodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.”

# 1. Mewnwelediadau gan Bartneriaid

**Sarah Aitken - Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a Phartneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

"Parhaodd yr heriau yr ydym wedi profi gyda'n gilydd dros yr amserau diwethaf i mewn i 2021-22, gyda'n partneriaeth a'n hymdrechion cydweithredol yn cydbwyso'r ymateb parhaus i bandemig Covid-19, ailddechrau 'busnes fel arfer' a'r trosglwyddiad at fodel o ariannu newydd i'r BPRh. Gyda'n gilydd, mae ein hymdrechion wedi arwain at lawer o brawf ar newid i barhau i ymateb i'r heriau yma. Mae'r gwaith da sydd wedi parhau trwy'r adeg wedi ei grynhoi'n addas yn Adroddiad Blynyddol y BPRh 2021-22, gan ddangos cryfder y system iechyd a gofal cymdeithasol a'i staff, a'r cynnydd sydd wedi bod er gwaethaf yr heriau."

**Melanie Minty - Cynghorydd Polisi De Orllewin a De Ddwyrain Cymru, Fforwm Gofal Cymru**

"Mae'r ymateb i bandemig covid wedi bod yn flaenaf unwaith eto, o reidrwydd, yn y flwyddyn ddiwethaf ac, er nad yw'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol wedi gallu cyfarfod, rydw i wedi parhau i gynrychioli darparwyr yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac i ystyried yr heriau go iawn y maen nhw wedi wynebu yn ystod y cyfnod. Mae'r argyfwng wedi dod â phartneriaid y BPRh ar draws sectorau ynghyd mwy nag erioed ac wedi gwneud blaenoriaethau'n fwy eglur. Mae'r berthynas â darparwyr wedi bod ar ei hennill o sesiynau rhithwir mynych ac rydw i wedi gallu eu cynrychioli yn yr Is-grŵp Gofal Cymunedol a sefydlwyd o dan y fframwaith ymateb brys. Mae partneriaid statudol Gwent i'w canmol am eu hymrwymiad i edrych cam ymatebion rhanbarthol yn hytrach na lleol - i'r argyfwng staffio'n arbennig Wrth i'r normal newydd setlo, rydym ar fin ailgynnull cyfarfodydd y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol, mae digwyddiad lles rhanbarthol yn cael ei gynllunio i ddiolch i'n gweithlu arwrol ac mae gwaith wedi ailddechrau ar fethodoleg ffioedd rhanbarthol. Er gwaethaf Covid, mae'r seiliau wedi eu gosod ar gyfer partneriaeth go iawn."

**Stephen Tiley - Prif Weithredwr, GAVO**

"Roedd 2021/2022 yn flwyddyn heriol gan fod effeithiau pandemig COVID 19 yn dal i gael effaith ar ein Trydydd Sector ac, fel partneriaid yn y BPRh, mae e wedi bod yn hanfodol sicrhau ein bod wedi gweithio gyda'n gilydd er budd trigolion y Rhanbarth. Mae Timau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ein Cyngor Gwirfoddol Sirol a'r Prosiect Rhaglen Arbenigol i Gleifion wedi bod yn weithgar wrth sicrhau bod gwasanaethau wedi parhau yn ystod amserau heriol, gan roi cefnogaeth a dolenni strategol i'r sector ac i bobl â chyflyrau cymhleth trwy raglenni ar-lein. Rydym yn ffodus bod gennym gyfle, o fewn ôl-troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i strwythurau cefnogol, i godi materion allweddol ar ran y Trydydd Sector, edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ein trigolion a Sefydliadau lleol yn y Trydydd Sector ac edrych at sicrhau bod yn gyfleoedd cydweithredol i gysylltu partneriaid. Bydd symud o arian CGI i arian CIRh yn dod â newid, ond bydd cael partneriaid o gwmpas y bwrdd sy'n agored i drafodaethau'n siŵr o sicrhau trosglwyddiad rhwydd. Mae'n wych gweld gwaith cadarnhaol y BPRh yn cael ei amlygu trwy Adroddiad Blynyddol y BPRh ac rwy'n frwd o fod yn rhan o'r cyfraniadau cadarnhaol y bydd yn dod gyda newid yn y dyfodol."

# 2. Crynodeb Gweithredol

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi parhau i fwrw ymlaen gyda blaenoriaethau yn y Cynllun Ardal Rhanbarthol dros y flwyddyn ddiwethaf er gwaethaf yr heriau anferth a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Mae cyfyngiadau clo wedi eu codi ar draws y rhanbarth, sefydliadau a chymdeithas, ond mae nifer o heriau'n bresennol o hyd, yn enwedig yr heriau sy'n wynebu'n gweithlu. Nid yw'r pwysau ar ysbytai yn her i'r bwrdd iechyd yn unig oherwydd bod angen i ni sicrhau bod gennym wasanaethau cymunedol effeithiol i helpu pobl i aros gartref, ond hefyd dychwelyd adref yn gyflym ac yn ddiogel ar ôl triniaeth. Mae cynllunio'r gaeaf yn broses flwyddyn gron a bydd gofyn am fonitro agos o'r straen ar weithwyr rheng flaen, oherwydd y pwysau y maen nhw wedi gweithio gyda nhw dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae'n dyst i frwdfrydedd ac ymrwymiad partneriaid y BPRh a'i staff ein bod ni wedi gallu parhau i gyflenwi blaenoriaethau'r Cynllun Ardal ac mae llwyddiannau allweddol yn cynnwys:

### Mae'r Bartneriaeth Strategol i Oedolion:

- Wedi cefnogi ac wedi cydlynu'r Fenter Trawsnewidiad Cartref yn Gyntaf sy'n cefnogi osgoi derbyn i'r ysbyty a gollwng yn rhydd ar gyfer asesiad. Mae GASP wedi gweithio'n agos â darparwyr cartrefi gofal a gofal yn y cartref lleol yn ystod y pandemig i roi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd.

### Partneriaeth Strategol Gofalwyr:

- Parhaodd i gyflenwi pedair blaenoriaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i ofalwyr o bob oed gan roi gwybodaeth a chefnogaeth i ofalwyr yn ystod y pandemig ac wythnos genedlaethol gofalwyr yn ogystal â gweinyddu cynlluniau grantiau bach Gofalwyr.

### Bwrdd Plant a Theuluoedd:

- Maen nhw wedi buddsoddi ac wedi mabwysiadu'r teclyn cynllunio Fframwaith NYTH i sicrhau dull 'system gyfan' ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chefnogaeth i blant a phobl ifanc yn ogystal â datblygu atebion preswyl i leihau nifer y gosodiadau y tu allan i'r sir.

### Bwrdd Dementia:

- Maen nhw wedi cychwyn cynllun peilot dan arweiniad Heddlu Gwent i roi cymorth ychwanegol i bobl â dementia trwy strap arddwrn, sy'n defnyddio Cyfathrebiadau Maes Agos. Rydym wedi parhau i ddarparu gweithdai Cyfeillion Dementia ar-lein a chefnogi cysylltiadau ar-lein â chymunedau. Mae prosiect Mentro Gyda'n Gilydd wedi cael ei weld dros 1 miliwn o weithiau yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae'n llunio peilot ar gyfer ap i ddefnyddwyr greu cynnwys sy'n benodol at eu hanghenion.

### Partneriaeth Strategol Iechyd a Thai:

- Mae aelodau wedi parhau i gyflwyno prosiectau cyfalaf a gwella adnoddau cyfredol, yn enwedig trwy'r defnydd o dechnoleg ddigidol.

### Partneriaeth iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu:

- Maen nhw wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r arolwg Iechyd Meddwl cenedlaethol ac maen nhw'n parhau i ddatblygu Rhaglen Haen Sylfaen ar ariennir gan Gronfa Trawsnewidiad Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn canolbwyntio ar dri phrosiect gwahanol ond cyflenwol sy'n ceisio gwella mynediad at, ac ymwybyddiaeth o, wybodaeth hunangymorth lles meddyliol, adnoddau a hyfforddiant ac sy'n cynnwys rhaglen hyfforddiant trawsnewid y gweithlu (Gwent Connect 5), i ddatblygu a gwella mynediad at wybodaeth ac adnoddau hunangymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth (gan ddefnyddio brand Melo Cymru) ac ymgymryd â mewnwelediad cymunedol gyda'r rheiny sydd yn y perygl mwyaf o les meddyliol gwael.

### Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Rhanbarthol:

- Maen nhw wedi parhau i gefnogi unigolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd gan addasu eu ffordd o weithio i roi cefnogaeth rithiol i ddiwallu anghenion. Yn 20/21 mynychodd 154 o bobl y Sesiynau Cyngor Awtistiaeth Rithiol a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig a therfyn y gwasanaeth galw heibio cymunedol.

# 3. RHAN 1: Trosolwg llywodraethiant partneriaeth a datblygiad

**i Pwrpas, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredol a blaenoriaethau allweddol y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.**

## Diben y Bwrdd fel y'i nodir yn y Cylch Gorchwyl yw:

'Mae Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf yn gorff partneriaeth allweddol a sefydlwyd i arwain a llywio cyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ardal Gwent Fwyaf (yn cynnwys ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) gan eistedd o fewn ôl-troed ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.'

## Blaenoriaethau'r BPRh yw:

- Gwella deilliannau iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau yn y rhanbarth;
- Gwella gofal, triniaeth a chefnogaeth, gan sicrhau bod pobl yn cael mwy o lais a mwy o reolaeth;
- Rhoi gwybodaeth a chyngor i helpu pobl i gynnal iechyd a lles;
- Rhoi gofal, triniaeth a chefnogaeth wedi eu cydlynu ac wedi eu canolbwyntio ar y person;
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd;
- Cyfunioni neu integreiddio dibenion ac adnoddau, ble mae'r integreiddio'n ychwanegu gwerth i drigolion.

I gyflenwi blaenoriaethau'r BPRh ac amcanion y Cynllun Ardal, mae'r BPRh wedi sefydlu 6 partneriaeth integredig strategol, sydd hefyd a throsolwg o'r rhaglenni gwaith perthnasol a phrosiectau o fewn y Gronfa Integreiddio Ranbarthol newydd.


## Mae'r is-bartneriaethau yma'n adrodd yn ôl i'r BPRh ac yn rhoi diweddariad am gynnydd yn erbyn blaenoriaethau a heriau'r Cynllun Ardal:

- Partneriaeth Strategol Gofalwyr;
- Partneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd;
- Bwrdd Dementia;
- Partneriaeth Strategol i Oedolion Gwent;
- Partneriaeth Strategol Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol;
- Partneriaeth Strategol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu.

Mae gan bob un o'r partneriaethau thematig raglen waith strategol, sy'n cael ei gyflenwi ar lefel leol trwy'r Byrddau Partneriaethau Integredig a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaethol.

**Mae yna grwpiau gweithredol eraill, a bennir yn y Ddeddf GCaLL yn ôl y gofyn ar lefel ranbarthol Mae hyn yn cynnwys:**

- Y panel trigolion rhanbarthol (gan gynnwys gofalwyr), gyda dau gynrychiolydd i eistedd ar y Bwrdd;
- Y fforwm darparwyr ar sail gwerth, i gysylltu'n uniongyrchol â'r BPRh - gyda dau gynrychiolydd etholedig i eistedd ar y Bwrdd;
- Grŵp cyd-gomisiynu rhanbarthol;
- Bwrdd Datblygiad y Gweithlu rhanbarthol;
- Grŵp Technoleg yn Galluogi Gofal rhanbarthol.




Mae Cynllun Ardal Gwent yn gosod camau gerbron ar gyfer system integredig o iechyd, gofal a lles ledled Gwent. Mae arweiniad cydweithredol gan gydweithwyr Iechyd, Llywodraeth Leol a'r Trydydd Sector wedi gyrru datblygiad y cynllun. Mae'n uchelgeisiol, ac yn gosod llwybr clir ar gyfer cyflenwad model integredig o iechyd, gofal a llesiant ar draws Gwent. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn rhoi arweiniad a throsolwg ar gyflenwad y cynllun, gyda chefnogaeth systemau llywodraethiant a rheolaeth perfformiad priodol.

Mae'r Cynllun wedi ei adeiladu o gylch y themâu craidd statudol a nodir yn yr Asesiad Anghenion y Boblogaeth diweddaraf a'r grwpiau poblogaeth a blaenoriaeth, ble mae angen newid yng nghyflymder y trawsnewidiad, dyma'r rhain: oedolion hyn, plant â phobl ifanc, gofalwyr; a phobl ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl a thai. Yn sail i'r grwpiau strategol yma mae ffrydiau gwaith ar y gweithlu, cyllid a thechnoleg gynorthwyol. Bydd y cynllun yn cael ei gyflenwi trwy'r strwythur uchod yn cynnwys gweithgaredd rhanbarthol (partneriaethau strategol), gweithgaredd lleol (5 x bwrdd integredig) a modelau cymdogaethau.

## ii Datblygiadau Allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

### Model Trawsnewid Gwent

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (GIRh) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa 5 mlynedd i gyflenwi rhaglen o newid o Ebrill 2022 i Fawrth 2027. Mae'r GIRh yn adeiladu ar y dysgu a'r cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Gofal Integredig (GGI) a'r Gronfa Trawsnewidiad (GT) a bydd yn ceisio creu newid cynaliadwy i'r system trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Mae nodweddion a gwerthoedd allweddol y Gronfa'n cynnwys:

- Ffocws cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar.
- Datblygu ac ymwreiddio modelau cenedlaethol o ofal integredig (cyfeirir ato hefyd fel modelau gofal yn y ddogfen hon).
- Rhannu dysg mewn ffordd weithredol ledled Cymru trwy Gymunedau Arfer.
- Rhoi adnoddau tymor hir cynaliadwy i ymwreiddio modelau gofal newydd a'u rhoi yn brif ffrwd.
- Creu trefniadau ar y cyd am gronfa tymor hir.
- Buddsoddiad cyson mewn cynllunio rhanbarthol a seilwaith partneriaeth.

Mae datblygiad y GIRh yn mynd i'r afael â'r argymhelliad adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig i adolygu ffrydiau ariannu tymor byr er mwyn lleihau dyblygu a sicrhau pwrpas cyflenwol unrhyw ffrydiau ariannu ar wahân.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, a'i bartneriaethau strategol cefnogol, wedi sefydlu portffolio o weithgaredd wedi ei gyfunioni â'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafodd y portffolio ei hwyluso gan amrywiaeth o ffrydiau ariannu a roddwyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar draws Cymru, gyda dyddiad terfyn disgwyliedig o 31 Mawrth 2022. Diffiniwyd blwyddyn ariannol 2021-22 felly fel cyfnod o drawsnewid; i gefnogi ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â heriau yn ein system, cymeradwyodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent gynllun trawsnewidiad rhaglen ar gyfer 2021-22 i gefnogi cynllunio ariannol partneriaeth a sefydliadol, a sicrhau bod rhybudd digonol yn cael ei roi o unrhyw newidiadau ar ôl y broses hon.

Mae'r BPRh, wedi eu cefnogi gan y Swyddfa Rheolaeth Portffolio, wedi datblygu cynllun CIRh newydd yn ystod 2012/22. Derbyniodd pob Partneriaeth Strategol becyn gwybodaeth am bob menter i gynorthwyo ystyriaeth, gan roi trosolwg manwl o'u portffolio, sgoriau risg a goblygiadau i'r gweithlu ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect, ochr yn ochr â unrhyw ddata deilliannau sydd ar gael ar gyfer pob un o'r mentrau. Hefyd, rhoddwyd negeseuon allweddol i bob partneriaeth strategol ar gychwyn yr ystyriaethau i ddangos pwysigrwydd y broses asesu a mynd i'r afael ag unrhyw risg o fewn ein system. Dywedwyd wrth bob partneriaeth strategol am eu cyfraniad i sefydlu rhaglen 5 mlynedd strategol ar gyfer y BPRh, a'r anallu i 'rolio ymlaen' rhaglenni presennol. Bydd CIRh yn gosod gerbron y rhaglenni partneriaeth a phrosiectau allweddol y bydd y BPRh yn parhau i gefnogi yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Cau BPRh wedi ei gynhyrchu gyda data deilliant i bob rhaglen a phrosiect, ochr yn ochr â'r ystyriaethau partneriaeth strategol i gefnogi cau'r rhaglenni a gysylltir â'r Gronfa Integredig Ranbarthol a'r Gronfa Trawsnewid wedi ei roi i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent. Mae'r wybodaeth yma'n nodi'n eglur y prosiectau a'r rhaglenni a fydd yn trosglwyddo i raglen newydd y BPRh, a gefnogir gan y Gronfa Integredig Ranbarthol, a chyflwyniad i aelodau newydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a rhanddeiliaid.

## iii Cynnydd ar gyflwyno newidiadau yn y cyfarwyddyd Rhan 9 diwygiedig. Yn Benodol.

### Tai ac Addysg

Yn unol â 'Cymru Iachach' ac elfen gyfalaf y CGI, mae tai yn bartner allweddol o fewn BPRhau. Mae'r cyfarwyddyd Rhan 9 diwygiedig yn gofyn am: 'O leiaf un cynrychiolydd tai o awdurdod lleol a pob bwrdd ac o leiaf un landlord cymdeithasol cofrestredig ar aelodaeth pob bwrdd'. Roedd rhanbarth Gwent eisoes wedi sefydlu Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai, ac enwebwyd cadeirydd y grŵp hwn, Paula Kennedy, Prif Weithredwr Cartrefi Melin, gan gydweithwyr o blith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i'w cynrychioli ar y BPRh.

Galwodd adroddiad blynyddol 2018/19 y Comisiynydd Plant am fwy o ffocws gan y byrddau rhanbarthol ar flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth. Mae'r Rheoliadau'r Diwygiad yn ychwanegu gofyniad i o leiaf un uwch swyddog awdurdod lleol o'r sector addysg fod yn aelod o'r bwrdd.

Mae Cyfarwyddwr Addysg enwebedig wedi ymuno â'r BPRh eleni. Mae'n werth nodi bod Cyfarwyddwyr Addysg wedi nodi cynrychiolydd enwebedig ar y Bartneriaeth Strategol ar gyfer Plant a Theuluoedd sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r BPRh, ac mae'r llais addysg hefyd yn bresennol yn ystod trafodaethau.

### Children and Young People

#### SPACE-Lles

*Yn 2021-22 derbyniodd SPACE-Lles 7,992 atgyfeiriad ar draws y rhanbarth a'u prosesu. Mae yna 5 o banelau i gyd sy'n cynnig pwynt sengl ar gyfer atgyfeiriad yn yr ardal leol. Yn ogystal ag atgyfeiriadau, derbyniodd y panel 6,001 o ymholiadau; gallai hyn fod yn unrhyw beth o gefnogaeth, cyngor, cyfarwyddyd i gyfeiriadau i bobl broffesiynol a theuluoedd. Mae nifer yr atgyfeiriadau ac ymholiadau wedi parhau i godi. Sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd fel bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir, y tro cyntaf, ar yr adeg gywir.*

*"Rydym wedi ein calonogi gan baneli cymorth cynnar SPACE-Wellbeing rhanbarth Gwent sef yr enghraifft fwyaf datblygedig yr ydym wedi'i darganfod o ddull amserol, 'dim drws anghywir' o gefnogi teuluoedd lle mae plant yn wynebu problemau iechyd meddwl neu emosiynol neu anawsterau ymddygiad. Mae yna hefyd enghreifftiau da eraill ledled Cymru lle mae rhanbarthau yn dechrau dwyn gwasanaethau ynghyd i helpu plant ag anghenion cymhleth. Mae angen i ranbarthau wneud mwy i ddysgu oddi wrth ei gilydd lle mae enghreifftiau o arfer da yn bodoli, a bod yn fwy uchelgeisiol wrth anelu at brofiad 'dim drws anghywir' ar draws eu rhanbarthau."*

***Adroddiad 'Dim Drws Anghywir' Comisiynydd Plant Cymru.***

Mae Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICiD) yn darparu cymorth wedi'i dargedu ac yn helpu i gysylltu gwasanaethau plant ac oedolion, gan ganolbwyntio ar y teulu fel uned. Mae'r GICiD yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i wneud newidiadau cadarnhaol, fel bod unrhyw bryderon yn cael eu lleihau, a gall plant aros yn ddiogel gartref. Yn rhanbarth BIPAB, Cyngor Dinas Casnewydd yn wreiddiol oedd y sefydliad arweiniol, a chydlynodd weithrediadau ledled y rhanbarth. Ariannodd y 5 awdurdod lleol wasanaeth a rennir yn benodol i gyflwyno'r model TICiD gwreiddiol. Mae cronni arian ar gyfer TICiD yn ofyniad o dan Ran 9 o Ddeddf GCaLl, ac roedd y trefniadau hyn ar waith cyn dyddiad gweithredu'r Ddeddf, 6 Ebrill 2016, ar gyfer model TICiD.

Rhwng 2016 - 2018 bu'r 5 ALl yn adolygu ac yn ailfodelu dulliau ymyriadau ar gyfer gwasanaethau Cyrion Gofal. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o effeithiolrwydd ein darpariaeth TICiD flaenorol. Roedd pryder a risg bosibl o gael gwasanaethau cyfochrog â dyblygu i deuluoedd. Mae pob TICiD wedi esblygu'r model cymorth gwreiddiol i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n wynebu rhieni'n camddefnyddio sylweddau, trais domestig ac afiechyd meddwl ymysg rhieni yn fwy effeithiol. Mae gan 5 ALl Gwent strwythurau gwahanol gyda sefydliadau sy'n amrywio ar gyfer cymorth i deuluoedd, ymyriadau dwys, cyswllt teuluoedd, ataliadau a gwasanaethau cyrion gofal. Goddiweddwyd y ddarpariaeth TICiD flaenorol gan ddatblygiad gwell gwasanaethau cyrion gofal gan ddefnyddio elfennau gorau'r model TICiD ond gan symud i ffwrdd o rai o'r agweddau llai defnyddiol.

Mae'r 5 ALl i gyd yn cynnig cymorth teuluol dwys gyda chymysgedd o fodelau, staffio a phartneriaid ond wedi'u hymwreiddio mewn ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae partneriaid yn cynnwys cydweithwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol, gweithwyr camdriniaeth ddomestig yn ogystal â gweithwyr cymorth teuluol. Mae'r 5 ALl i gyd yn chwarae rôl gyda Phartneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd ac yn gweithio gyda'i gilydd fel sy'n briodol; er enghraifft ar gynigion diweddar y GGI i ddatblygu ymyriadau cymorth i deuluoedd ymhellach.

O dan y Bartneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd rydym wedi datblygu is-grŵp Gwasanaeth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN) ac mae hyn yn cefnogi plant ag anghenion cymhleth trwy ddull un drws ffrynt ac mae hefyd yn canolbwyntio ar drosglwyddo rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

Fel yr amlinellir yn Rhan 9 o'r Ddeddf GCaLl, mae'r 5 ALl yn gweithio gyda'i gilydd i rannu arfer a chydweithio o ran hyfforddiant ac arbenigedd. Mae'r pump ALl wedi datblygu cynnig Gwent gan ddefnyddio arian y GGI ynghyd â chyllidebau craidd ar draws pedwar maes sef; Cynadleddau Grwpiau Teulu, Cyfryngu, Teulu a Ffrindiau, a gwasanaethau Gyrion Gofal. Cyflwynir pob un ohonynt gan ddefnyddio ffocws trawma a dull sy'n seiliedig ar gryfderau, felly'n mynd i'r afael â dysgu methodoleg TICiD. Mae'r adnodd GGI yn cael ei fonitro'n rhanbarthol ac mae'r gwaith gyda'r tîm GGI yn parhau er mwyn gwerthuso'r gwaith hwn ledled y rhanbarth.

## Cydgomisiynu a Chyfuno cronfeydd gan gynnwys cynnydd yng nghyd-destun argymhellion adroddiad KPMG ar gyllidebau cyfun.

Cyn pandemig COVID-19, roedd y Grŵp Comisiynu Rhanbarthol (GCRh) yn symud ymlaen i gam nesaf ei raglen waith. Yn ystod y pandemig, darparodd y GCRh gefnogaeth helaeth i ddarparwyr gofal ledled y rhanbarth, gan fonitro swyddi gwag mewn cartrefi gofal, helpu i lunio strategaethau a fyddai'n ystyried ac yn canfod atebion i ymyriadau posibl i wasanaethau a chefnogi gollyngiadau'n rhydd o ysbytai. Hefyd, i sicrhau bod y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael eu cyfleu'n effeithiol cafodd yr cylch gorchwyl ac aelodaeth hefyd eu hadnewyddu.

### Nod cyffredinol y GCRh yw:

> **'Cefnogi a galluogi pobl i fyw lle maen nhw eisiau byw a sefydlu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw fel man cychwyn.'**

## Gofynion Allweddol:

- Gweithio gyda'r farchnad/marchnadoedd gofal i ysgogi newid.
- Gweithio gyda chomisiynwyr i newid arferion comisiynu.
- Gweithio gyda staff i newid diwylliant ac arfer.
- Gweithio i gael strategaeth gyfathrebu glir a negeseuon a rennir gan yr holl gomisiynwyr.

Mae gan y GCRh swyddogaeth drawsbynciol ar draws y partneriaethau strategol rhanbarthol ac mae ar gael i wneud gwaith ar eu rhan ac ar ran y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol. Mae'r GCRh hefyd yn goruchwylio rhaglenni comisiynu rhanbarthol ledled y rhanbarth a fforwm rhannu gwybodaeth ac arfer da ar draws y partneriaethau rhanbarthol. Mae'r GCRh hefyd ar gael i ddarparu cyngor technegol arbenigol i bartneriaid ar gomisiynu gweithgaredd cysylltiedig ond bydd y ffocws dros y flwyddyn nesaf ar gefnogi'r sector cartrefi gofal gyda nifer uchel o swyddi gwag a chynllunio cynaliadwyedd y sector yn y tymor hir. Mae gweithio'n agos â'r sector gofal cartref wedi bod yn nodwedd o'r 18 mis diwethaf wrth i strategaethau gael eu cynllunio i gefnogi asiantaethau i recriwtio a chadw digon o staff.

## Cyllidebau Cyfun ac Adroddiad KMPG

### Mae'r matrics aeddfedrwydd, h.y. sut y gwnaethant asesu trefniadau Gwent isod:

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas cronfeydd cyfun | Lefel Aeddfedrwydd 3 |
| Trefniadau rheoli'r gronfa | Lefel Aeddfedrwydd 5 |
| Sut y gwneir penderfyniadau am defnydd o'r gronfa | Lefel Aeddfedrwydd 5 |
| Sut y rhennir risg cronfeydd cyfun | Lefel Aeddfedrwydd 1 |
| Canlyniadau cychwynnol cronfeydd cyfun | Lefel Aeddfedrwydd 2 |
| Datblygiad yn y Dyfodol | Lefel Aeddfedrwydd 3 |
| Cydweithredu | Lefel Aeddfedrwydd 3 |

Defnyddiwyd adroddiad KPMG i ddatblygu'r agenda ranbarthol ac fe wnaeth helpu i greu ffocws ar feysydd allweddol. Mae BPRh Gwent yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i ddefnyddio hyblygrwydd y cyllidebau cyfun ac mae'r gronfa gyfun bresennol sy'n cefnogi cartrefi gofal yn cael ei chynnal. Mae Cyngor Torfaen yn cynnal y rheolwr cronfa gyfun o dan Gytundeb Adran 33.

## Rhaglen Comisiynu Ranbarthol

Roedd pob partner wedi 'ymrwymo' at gynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer 2021/22 a oedd yn adeiladu'n uniongyrchol ar y cynnydd a wnaed yng nghyd-destun gofynion Rhan 9 o'r Ddeddf GCaLl Serch hynny, daeth y pandemig byd-eang i ymyrryd a gohiriwyd llawer o'r gwaith yma tra bod delio ag anawsterau mwy dybryd.

### Er gwaethaf hyn, mae cynnydd da wedi bod yng nghyd-destun gofynion Rhan 9 ac nid yw hyn wedi ei golli:

- Trefniant Cronfa Gyfun Adran 33 wedi'i lofnodi gan bob parti.
- Contract rhanbarthol cyffredin wedi'i weithredu ac yn weithredol.
- Cytuno a gweithredu Manyleb Gyffredin ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal.
- Cytuno ar fethodoleg ffioedd cyffredin ar y cyd â chartrefi gofal a symud tuag at gyfnod profi manwl (a gafodd ei oedi yng ngoleuni pandemig Covid 19 ac sy'n cael ei adolygu nawr ar y cyd â chartrefi gofal).
- Offeryn monitro contract cyffredin (mae hyn yn ôl yn y rhaglen waith i'r GCRh nawr).
- Cytunwyd a gweithredwyd dull rhanbarthol o roi meddyginiaeth mewn gofal cartref.
- Mae dull cyffredin o ymdrin â gwasanaethau penodedig a dirprwyaeth yn cael ei ystyried.
- Roedd swyddi gwag mewn cartrefi gofal yn cael eu monitro trwy gydol pandemig COVID-19.

### Mae Rhaglen Waith y GCRh ar gyfer 2022/23 yn cael ei adolygu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Serch hynny, bydd yn cynnwys:

- Yr agenda ailgydbwsyo.
- Cryfhau rôl y 3ydd Sector gyda phwyslais ar atal derbyn i ysbytai a hwyluso gollwng yn rhydd.
- Cefnogi a hyrwyddo mesurau i leddfu argyfyngau'r gweithlu.
- Cynnal a datblygu cyfathrebu effeithiol a gwaith partneriaeth cryf gyda'r sector gofal cymdeithasol cyfan.
- Gwasanaethau Llety Rhan 9 Deddf GCaLl i bobl hŷn.
- Edrych ymhellach ar y cyfleoedd am drefniadau ar gyfer cronfeydd cyfun.
- Cwblhau methodoleg ffioedd rhanbarthol ar gyfer cartref gofal.
- Cytuno ar y methodoleg rheolaeth cytundebau a sicrhau ansawdd ar gyfer cartrefi gofal a gweithredwyr gofal yn y cartref.
- Gwasanaethau Rhanbarthol ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu.
- Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol i Oedolion.
- Gwasanaethau Rhanbarthol i Blant.
- Gwasanaethau Dydd Rhanbarthol.

# 4. RHAN 2: Diweddariad cyffredinol ar gynnydd

## 2a: Cyflawni yn erbyn Amcanion Allweddol

**Mae canlyniadau'r Cynllun Ardal yn cael eu cyflawni a'u monitro trwy'r 6 Phartneriaeth strategol sydd hefyd yn sicrhau bod y themâu cenedlaethol a nodir yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yn cael eu blaenoriaethu:**

- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth (yn cynnwys diffiniadau rhan 9 newydd);
- Gofalwyr di-dâl;
- Pobl hŷn, gan gyfeirio'n benodol at gefnogi pobl sy'n dioddef o ddementia;
- Pobl ag anableddau corfforol;
- Pobl ag anabledd dysgu/awtistiaeth;
- Pobl ag iechyd meddwl gwael neu anghenion cymorth emosiynol;
- Pobl â nam ar y synhwyrau;
- Pobl sy'n wynebu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) neu ddigartrefedd a'r ystâd ddiogel (fel y nodir yn y Cod Ymarfer).

Yn ogystal â'r themâu statudol uchod, mae'r BPRh hefyd wedi cynnwys adrannau ar Dai ac Awtistiaeth.

Mae gweithio mewn partneriaeth â byrddau strategol eraill yn allweddol i sicrhau ein bod yn creu synergedd ar draws y rhanbarth ac yn osgoi dyblygu ymdrechion ac mae'r BPRh hefyd yn cysylltu'n agos â'r Bwrdd Cynllunio Ardal, sy'n arwain ar faterion camddefnyddio sylweddau a Byrddau Diogelu. Ar lefel strategol, mae'r BPRh yn cysylltu'n agos â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd i sicrhau bod dull cydweithredol o gyflawni'r Cynllun Ardal a'r Cynlluniau Lles rhanbarthol ac agenda VAWDASV.

**Mae'r rhan hon o'r adroddiad blynyddol yn nodi gwaith allweddol a ddatblygwyd trwy bob un o'r partneriaethau o dan y BPRh a chanlyniadau allweddol yn y flwyddyn mewn perthynas â chyflawni'r Cynllun Ardal Rhanbarthol.**

### Partneriaeth Strategol ar gyfer Oedolion Gwent (PSOG)

**Canlyniad Cynllun Ardal a nodwyd trwy'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth:**

- Gwella lles emosiynol pobl hŷn trwy leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol gydag ymyrraeth gynharach a gwytnwch cymunedol.
- Cefnogi pobl hyn i fyw yn, neu ddychwelyd ar ôl cyfnod yn yr ysbyty at, eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain trwy ymyrraeth gynnar, modelau o ofal integredig a dull system gyfan.
- Lleddfu effaith tymor hir pandemig Covid-19 trwy, yn arbennig, leihau rhestrau ac amserau aros i gael cefnogaeth, apwyntiadau a thriniaethau meddygol.

## Crynodeb Safle'r Farchnad

- Mae yna angen cynyddol i gefnogi lles emosiynol i bobl hŷn ymhellach, trwy leihau problemau unigrwydd ac ynysu a darparu ymyrraeth gynnar aml-asiantaeth a chefnogaeth gymunedol i hybu lles.
- Bydd angen i'r BPRh gryfhau partneriaethau ac arferion ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol/trydydd sector i sicrhau ein bod ni'n cefnogi pobl i aros yn iach gartref cyhyd a phosibl, a'u bod yn gallu dychwelyd adref o'r ysbyty, trwy ddull uwch o ail-alluogi.

### Progress:

- Mae'r BPRh wedi goruchwylio cynlluniau gaeaf ar draws y rhanbarth ac wedi gweithredu llwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu Mae'r gwasanaeth hwn yn rhychwantu 5 ardal awdurdod lleol Gwent ac yn cefnogi atal mynediad a rhyddhau'n gyflymach. Hefyd mae'r bartneriaeth wedi cefnogi a chydlynu Menter Trawsnewid Cartref yn Gyntaf sy'n cefnogi osgoi derbyn a rhyddhau i asesu.
- Mae'r PSOG wedi gweithio'n agos iawn gyda darparwyr cartrefi gofal a gofal cartref lleol yn ystod y pandemig i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad mewn perthynas â'r heriau niferus fel ymweld â chartrefi gofal, profion i staff a phrosesau brechu.
- Parhau i ddatblygu dull comisiynu rhanbarthol ar gyfer cartrefi gofal a monitro gwelyau gwag a chyfarwyddo, a gweinyddu Cyllid Caledi i sicrhau bod cartrefi gofal yn cael cefnogaeth ariannol. Mae'r pandemig wedi effeithio ar amserlenni a phrofi methodoleg ffioedd cyffredin ond bydd hyn yn symud ymlaen ar gyflymder dros y flwyddyn nesaf.
- Bydd y grŵp hefyd yn edrych ymhellach, gyda phartneriaid yn y 3ydd sector, ar gyfleoedd i atal derbyniadau i ysbytai a hwyluso gollwng yn rhydd yn brydlon.
- Mae'r bartneriaeth hefyd wedi goruchwylio gweithrediad Prosiect Trawsnewid Cymunedau Tosturiol i ail-ddylunio cymorth gofal sylfaenol ac eilaidd, gyda hyfforddiant mewn Llywio Gofal yn cael ei ddatblygu ar draws meddygfeydd MT a gwasanaethau rheng flaen ledled y rhanbarth.

## Partneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd

### Canlyniadau Cynllun Ardal a nodwyd trwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth:

- Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth trwy ymyrraeth gynharach, cefnogaeth yn y gymuned a lleoliadau yn agosach at y cartref.
- Sicrhau iechyd meddwl a lles emosiynol da i blant a phobl ifanc trwy weithio mewn partneriaeth yn effeithiol gan leddfu yn arbennig effaith tymor hir pandemig Covid-19.

## Crynodeb Safle'r Farchnad:

- Mae yna angen i barhau i gryfhau gwasanaethau a phartneriaethau o gylch dull drws blaen o ostwng trosglwyddiadau rhwng sefydliadau a sefydlu dull olynol gydag anghenion niferus ar gyfer ymyrraeth.
- Bydd y BPRh yn parhau i weithredu egwyddorion NEST/NYTH a pharhau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a theuluoedd wrth i ni symud at ddull system gyfan.
- O ystyried y rhaglen newydd o flaenoriaeth y llywodraeth i ddileu elw mewn gofal preswyl i blant mewn gofal, bydd y BPRh yn cefnogi'r agenda a hefyd y gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol a fydd yn helpu i leihau bod plant mewn gofal.

## Cynnydd:

- Mae'r pum ALl gyda chydweithwyr yn BIPAB wedi bod yn ystyried y ffordd orau o ddarparu gofal preswyl i blant yn y rhanbarth ac mae Windmill Farm yng Nghasnewydd yn cael ei ddatblygu gyda chyfalaf y GGI. Mae Windmill Farm yn gartref pedair ystafell wely i blant, a ddatblygwyd yn benodol fel cartref i blant sydd angen amser mewn amgylchedd diogel sy'n deall trawma wrth i bartneriaid eu cefnogi nhw a'u teulu i ddarganfod y gofal gorau yn y tymor hwy.
- Mae model Iceberg wedi rhoi ymyrraeth gynnar a chefnogaeth effeithiol. Pwrpas y Rhaglen oedd atal anghenion rhag cynyddu, a hwyluso nod tymor hir o gael Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol i weithio gyda'i gilydd yn fwy agos. Un o'r amcanion trosfwaol ychwanegol oedd grymuso'r staff rheng flaen i gyd ar draws yr asiantaethau i gyd i gydnabod y cyfraniad sylweddol y maen nhw'n ei wneud i iechyd a lles trwy'r perthnasau sydd ganddyn nhw â phlant a phobl ifanc a'u cefnogi i allu cynnig hyn, trwy hyfforddiant ychwanegol a chyngor a chefnogaeth ychwanegol.
- Ym mlwyddyn 2021-22, gweithiodd y Tîm Ymyrraeth Deuluol gyda 193 o deuluoedd. Maen nhw'n cynnig ymyrraeth seicolegol dros 12 wythnos sy'n systematig yn ei natur i sicrhau dull wedi ei greu'n benodol ar gyfer y teulu cyfan.
- Mae Cefnogaeth Cymheiriaid Platfform 4YP wedi cyflenwi sesiynau cefnogaeth cymheiriaid i 467 o bobl ifanc a defnyddiodd 193 o bobl ifanc gefnogaeth un wrth un. Mynychodd 543 o bobl ifanc hyfforddiant hunanreolaeth o gylch rheoli emosiynau.

## Astudiaeth Achos

### Cyflwynwyd y Rhaglen Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar (GYG)

**Ym mlwyddyn ariannol 2019-20, yn benodol i gefnogi plant a'u teuluoedd ar gyrion gofal. Ers hynny, mae rhaglen rhanbarthol wedi datblygu, yn cynnwys cyfres o brosiectau gydag amcan ar y cyd o "Cefnogi plant a'u teuluoedd sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i leihau, ble mae hynny'n bosibl, nifer y plant sy'n mynd i mewn i ofal a chefnogi aduno teuluoedd."**

**Bwriad y prosiectau i gyd yn y rhaglen yma yw lleihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r system gofal, lleihau nifer y rheiny sydd "Mewn Gofal", a helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd ble mae hynny'n bosibl. Nodwyd ar draws y rhaglen ranbarthol, os nad oedd gwasanaethau ataliol digonol ar gael, byddai yna gynnydd mewn Plant a Phobl Ifanc a fyddai'n mynd 'Mewn Gofal'. Mae cael Plant a Phobl Ifanc yn dod i mewn i ofal yn arwain at gynnydd mewn cysylltiad gyda gwasanaethau statudol plant ac, yn aml, angen am becyn gofal cymhleth, gan roi pwysau ar ein Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac, yn fwy pwysig, yn cael effaith ar y ffactorau gwydnwch a chanlyniadau i'n Plant a Phobl Ifanc.**

### Ers cyflwyno'r rhaglen:

- **12,919 o atgyfeiriadau ar draws yr holl wasanaethau** sydd o fewn y Rhaglen.
- O'r atgyfeiriadau yma, **mae 5851 o blant wedi cael eu cefnogi i aros yn eu rhwydwaith teuluol, sy'n 45% o'r rheiny a ddefnyddiodd y gwasanaeth** ers cychwyn y gwasanaethau yn 2019.
- **Cafodd 325 (2.5%) o unigolion eu Cyfeirio i ffwrdd o'r System Gofal a 541 (24.5%) eu cyfeirio i ffwrdd o Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus** i ymchwilio i bryderon.
- Cefnogwyd llai nag 1% (23) o'r rheiny'n defnyddio gwasanaethau i fod yn Mewn Gofal ac mae 1091 o unigolion wedi ymgysylltu â gweithgareddau addysg a chymunedol, gyda 338 o ofalwyr yn defnyddio cefnogaeth cymheiriaid, hyfforddiant a chefnogaeth seicolegol.
- Nododd y wybodaeth a dderbyniwyd y prif resymau am atgyfeiriadau, gyda 378 o atgyfeiriadau ar gyfer Gwarchod Plant a Diogelu, 274 am y perygl o ddatblygu i fod 'Mewn Gofal', cafodd 55 eu hailsefydlu o fod 'Mewn Gofal' a chyfeiriwyd 186 am resymau eraill.
- Mae yn bedwar maes canlyniad ar gyfer y rhaglen; Atgyfeiriadau at Wasanaethau Cam-i-lawr / Cefnogaeth Gynnar ble cafodd 149 o bobl ifanc y canlyniad yma Cafodd 49 eu hailsefydlu a'u dychwelyd i'w teuluoedd, cafodd 233 eu cyfeirio i ffwrdd o fod 'Mewn Gofal' ac osgôdd 112 mynd at Gynhadledd Achos.

### Adborth gan deuluoedd:

**"Cefais fod y gweithiwr yn gefnogol ac rwyf nawr yn dilyn cynllun adsefydlu i gael fy mabi i ddod yn ôl ataf i yn llwyr."**

**"O'r diwedd rwy'n teimlo bod rhywun yn gwrando ac rwy'n fwy hapus i weld dad."**

## Partneriaeth Strategol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu

### Deilliannau Cynllun Ardal a nodwyd trwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth:

### Iechyd Meddwl:

- Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymhlith y cyhoedd i leihau stigma a helpu pobl i geisio cymorth yn gynt.
- Gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl i oedolion a phlant trwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gymunedol.

## Crynodeb Safle'r Farchnad

- Mae angen i ni hyrwyddo lles meddyliol pobl Gwent a sicrhau bod y gweithlu'n cael cefnogaeth i allu rhoi'r gefnogaeth y mae ei hangen i bobl ar yr adeg gywir.

## Cynnydd

### Gwaith Haen Sylfaenol:




Cefnogodd Cronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru'r rhaglen Haen Sylfaenol am flwyddyn a bydd nawr yn mynd ymlaen i dderbyn arian trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar dri phrosiect gwahanol ond cyflenwol gyda'r bwriad o wella mynediad at, ac ymwybyddiaeth o, wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant lles meddyliol wedi eu cymeradwyo.

### Amcanion y prosiectau yw:

1. **Sefydlu ac ymwreiddio rhaglen hyfforddiant gweithlu trawsnewidiol (Gwent Connect 5) sy'n gallu cael ei chyflenwi ar raddfa ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.**
2. **Cymryd mantais o'r trawsnewidiad digidol sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig i ddatblygu a gwella mynediad at wybodaeth ac adnoddau hunangymorth sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth (gan ddefnyddio brand Melo Cymru).**
3. **Ymgymryd â mewnwelediad cymunedol gyda'r rheiny sydd yn y perygl mwyaf o les meddyliol gwael, gan gynnwys y rheiny sydd wedi eu heithrio'n ddigidol ac sydd wedi eu heffeithio'n fwyaf andwyol gan y pandemig (gadael neb ar ôl).**

Cafwyd cynnydd ardderchog yn nifer y rheiny oedd yn ymgymryd â hyfforddiant Gwent Connect 5 ar draws Gwent, gyda dros 400 o fodiwlau'n cael eu cyflenwi a 40 o hyfforddwyr Gwent Connect 5 wedi eu hyfforddi yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae cyfanswm o 62 o hyfforddwyr lleol wedi cwblhau rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr Gwent Connect 5; gyda 56 o'r hyfforddwyr yma'n aelodau ar hyn o bryd o Rwydwaith Hyfforddwyr Gwent Connect 5 ac o'r rhain, mae 44 yn 'weithgar' neu 'ar fin bod yn weithgar' wrth gyflenwi'r rhaglen.

Rhoddwyd hyfforddiant i dros 40 o bartneriaid gan gynnwys Tîm Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu Gwent, yr Adran Waith a Phensiynau, Diverse Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru, BIPAB a staff yr Awdurdod Lleol. Mae dros 25 o hyfforddwyr yn cyflenwi hyfforddiant Gwent Connect 5 ar hyn o bryd ar draws Gwent Mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr yn cyflenwi'n fewnol, tra bod 5 o hyfforddwyr lleol o sefydliadau trydydd sector/nid-er-elw, sydd heb fynediad at hyfforddwr mewnol.

## Ers Ebrill 2021 mae ffocws y prosiect wedi bod ar:

- Cynyddu nifer sy'n ymgymryd â rhaglen hyfforddiant gweithlu Gwent Connect 5 trwy gomisiynu cyflenwad cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr a recriwtio 10 hyfforddwr newydd ychwanegol o sefydliadau partner.
- Recriwtio Hyfforddwyr Arweiniol ar gyfer pob un o'r 5 ardal Awdurdod Lleol yng Ngwent.
- Hyfforddi a chomisiynu hyfforddwyr Gwent Connect 5 o Diverse Cymru a darparwyr yn y Trydydd Sector Iechyd Meddwl i gyflenwi hyfforddiant i dargedu gweithluoedd sy'n cefnogi grwpiau o'r boblogaeth sydd yn y perygl mwyaf o les meddyliol gwael.
- Diweddaru cynnwys yr hyfforddiant i gynnwys mwy o ffocws ar hunanofal cyfranogwyr yr hyfforddiant, oedolion ifanc ac Ymatebwyr Brys.
- Diweddaru taflen hyrwyddol Gwent Connect 5 i bwysleisio buddion personol a phroffesiynol o fynychu'r hyfforddiant.
- Sicrhau fod hyfforddiant Gwent Connect 5 wedi ei dargedu at weithluoedd priodol.
- Fel rhan o'r rhaglen waith i Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Gwent, mae 4,000 o leoedd wedi eu hariannu wedi cael eu cynnig ar gyfer hyfforddiant Cymorth Cyntaf Hunanladdiad.

Cwblhaodd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru werthusiad allanol o Gwent Connect 5, gan ddefnyddio methodoleg Most Significant Change. Y casgliad oedd bod yr hyfforddiant yn rhoi canlyniadau cadarnhaol i gyfranogwyr yr hyfforddiant a hyfforddwyr.

## Roedd casgliadau allweddol yn cynnwys bod rhaglen Gwent Connect 5 wedi:

- Cynyddu cysylltiadau a rhwydweithiau.
- Cyfrannu at newidiadau mawr a thymor hir.
- Caniatáu i bobl gael teclynnau a thechnegau ymarferol.
- Galluogi cyfranogwyr i elwa o welliant cadarnhaol sylweddol yn eu datblygiad personol a phroffesiynol.
- Cael effaith cadarnhaol ar atal hunanladdiad yng Ngwent.
- Gallai'r rhaglen fod yn arbennig o heriol ond yn bleserus.

## ‘Melo Cymru’

Lansiwyd gwefan Melo Cymru yn Ionawr 2021 ac mae’n gweithredu fel ystorfa ar gyfer adnoddau hunangymorth cymeradwy a gwybodaeth am les meddyliol. Mae’n sicrhau’r hygyrchedd pennaf gan fod y tudalennau i gyd yn ddwyieithog ac mae’r teclyn Reach Deck wedi ei ychwanegu i alluogi lleferydd at destun a darllen a chyfieithu testun i 99 o ieithoedd. Mae hyn yn gwneud cynnwys ar-lein yn fwy hygyrch i bobl â Dyslecsia, lefelau isel o lythrennedd, namau mwyn ar y golwg a phobl sydd yn siarad Saesneg fel ail iaith.

### Ers Ebrill 2021, mae ffocws y prosiect yma wedi bod ar:

- Lansiod 6 sianel cyfryngau cymdeithasol Melo (Twitter - Saesneg a Chymraeg, Facebook - Saesneg a Chymraeg ac Instagram - Saesneg a Chymraeg) ym Mai 2021.
- Cyd-gynhyrchu amserlenni cyfryngau cymdeithasol gyda dylunydd gwefan Melo Cymru, sy’n cael eu llywio a’u cymeradwyo gan grŵp golygu aml-asiantaeth arweinir gan y tîm Iechyd Cyhoeddus. Mae ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol wedi cynnwys ymgyrch wythnos o hyd ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Diwrnod Atal Hunanladdiad ac ymgyrch mis o hyd yn Awst ar y Pum Ffordd at Les: ‘5diwrnod5ffordd.’
- Monitro hygyrchedd y wefan trwy ymarferion ymgysylltiad partneriaid i ganfod eu barn.
- Sicrhau arian ychwanegol i wella ymarferoldeb gwefan Melo Cymru a gwella hunan-lywio.
- Hyrwyddo’n rheolaidd adnoddau ar-lein credadwy fel Silver Cloud, Bywyd ACTif a Rheolaeth Straen, sydd ar gael trwy wefan Melo.
- Sicrhau bod mwy o’r adnoddau ar Melo yn gallu cael eu lawrlwytho/argraffu ac felly’n hygyrch i bobl sydd wedi eu heithrio’n ddigidol o sefydliadau partner fel Meddygon Teulu.
- Defnyddio’r sianelau cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio defnyddwyr at wefan Melo Cymru yn ogystal a chreu negeseuon a gymeradwyir yn lleol i hyrwyddo a gwarchod iechyd meddwl.
- Cyd-gynhyrchu gyda phartneriaid a dosbarthu cylchlythyron digidol chwarterol Melo i bartneriaid.
- Cychwyn Panel Pobl Ifanc lleol i lywio datblygiad adnoddau sy’n briodol i bobl ifanc.
- Monitro, datblygu a hyrwyddo gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol barhaus.
- Trefnodd Cyfarwyddwr Ansawdd a’r Uned Iechyd Meddwl yn Nghydweithrediad Iechyd GIG Cymru gyfarfod ag Arweinydd y Rhaglen i drafod y posibilrwydd o gael gwefan Melo i fynd yn genedlaethol. Mae’r trafodaethau yma’n parhau.

Hefyd, mae hyrwyddo Melo nawr yn rhan o hyfforddiant cyflwyno staff i raglen Ymarferwyr Lles Seicolegol BIPAB ac yn rhan annatod o hyfforddiant Gwent Connect 5. Yn y 12 mis diwethaf: O Ebrill 2021 tan Mawrth 2022, mae dros 29k o ddefnyddwyr wedi bod yn ymweld â gwefan Melo. O’r 29k hynny, roedd 28k yn ddefnyddwyr newydd.

## Ymarferwyr Lles Seicolegol (YLlS)

Mae'r gwasanaeth YLlS wedi bod yn ymatebol i'r newidiadau i gyfyngiadau dros y chwe mis diwethaf, gan gynnig dewis o apwyntiadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ble mae'n bosibl sicrhau parhad yng nghyflenwad y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i leihau galw am wasanaethau arbenigol ac felly rydym wedi gweld 54% o'n canlyniadau apwyntiadau yn cynnwys gydag adnoddau yn y gymuned a 24% yn cael eu 'rheoli' gan y YLlS.

Mae un YLlS yng Nghasnewydd yn estyn allan tuag at gymunedau BAME ble rydym yn deall yr angen i fod yn wych a chadarnhau na fydd y cymunedau yma'n gofyn am gymorth gan eu MT yn rhwydd ac mae angen iddyn nhw ymddiried mewn pobl broffesiynol cyn ceisio help. Yn gysylltiedig â hyn mae'r rhwystrau a wynebir gan yr YLlS wrth iddyn nhw helpu'r bobl yma i gael y deunydd hunangymorth mewn iaith y maen nhw'n gallu deall.

## Crisis a chymorth y tu allan i oriau

O fewn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion, mae model mewn grym i ganiatáu mynediad 24/7 at asesiadau mewn argyfwng. Rhwng oriau 9am-9pm, mae'r tri Thîm Triniaeth Cartref Datrys Argyfwng ar gael, ac a mae asesiadau'n cael eu gwneud o fewn ardal leol y claf.

Ar ôl 9pm, mae cymhorthfa asesu canolog y tu allan i oriau ar gael yn Ysbyty Sant Cadog. Mae'r lleoliad yma yn gysylltiedig â'r ystafelloedd 136 sydd ar gael 24/7 i unrhyw un sydd angen lle diogel.

Rhwng 9am a hanner nos mae gwasanaeth cyswllt argyfwng yn Ysbyty'r Faenor gyda chyswllt ag Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall Gall pobl sy'n dod mewn argyfwng i adran frys gael eu hasesu gan swyddogion cyswllt argyfwng rhwng yr amserau yma. Mae derbyniadau i wardiau ar gael 24/7.

Mae ymarferwyr iechyd meddwl ar gael yn yr hwb MT y Tu Allan i Oriau ar nos Wener (7pm - hanner nos). Dydd Sadwrn, Dydd Sul, a Gwyliau Banc (2pm- 10pm) Os bydd rhywun yn ffonio 111 gydag angen iechyd meddwl ac yn cael ei gyfeirio/chyfeirio at y Gwasanaeth MT y Tu Allan i Oriau, bydd yr alwad yn cael ei derbyn gan ymarferydd iechyd meddwl yn ystod yr oriau yma.

## Tŷ Cymorth (Argyfwng)

Mae Tŷ Cynnal yn fenter newydd yn y gwasanaeth, y cyntaf o'i fath yng Ngwent, a dim ond yr ail yng Nghymru. Rhoddwyd y cytundeb i redeg Tŷ Cynnal i Platfform yn Ebrill 2021 Mae gwaith adnewyddu a gwella sylweddol wedi ei wneud i Dŷ Cynnal dros yr haf a fydd yn gwella'i allu i gynnig rhywbeth amgen i 5 o bobl sy'n cyflwyno'u hunain mewn argyfwng iechyd yn lle derbyn i'r ysbyty. Mae gwaith wedi bod yn mynd ymlaen gyda Platfform i recriwtio staff ar gyfer rota 24/7 y mae ei hangen. Bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei redeg ar y cyd gan Platfform a 3 thîm datrys argyfwng a thimau triniaeth yn y cartref BIPAB, ac mae gweithdai'n digwydd i gyd-gynhyrchu'r polisi gweithredu. Mae prinder staff mewn iechyd a gofal cymdeithasol wedi achosi oedi yn agor Tŷ Cynnal tan Dachwedd 2021.

I blant a phobl ifanc mae ehangiad wedi bod i'r cyswllt brys CAHMS presennol, Estyn Allan Argyfwng a darpariaeth Cefnogaeth ac Ymgysylltiad Dwys. Mae hyn wedi lleihau derbyniadau i'r ysbyty i blant a phobl ifanc trwy eu gwaith estyn allan a darpariaeth asesiad / ymgysylltiad cyflym fel dewis amgen i dderbyniadau ir' ysbyty. Mae'r gwasanaeth uwch yma hefyd wedi cefnogi hyfforddiant ar faterion iechyd meddwl i wella hyder a chefnogaeth i ymarferwyr.

### Cysylltu Bywydau

*Roedd cynllun Cysylltu Bywydau ar gyfer Argyfwng Iechyd Meddwl yn llwyddiannus wrth gael arian rheolaidd i gyflwyno ar draws Gwent, gan alluogi'r cynllun i fynd i gytundeb partneriaeth ffurfiol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gefnogi darparu dewisiadau i ofal argyfwng mewn ysbyty. Mae'r cynllun hyd yn hyn wedi gwneud 90 o drefniadau i bobl fel dewis amgen i neu alluogi gollwng yn rhydd o'r ysbyty. Ehangu'r tîm Argyfwng Gogledd Gwent i alluogi cyflwyno ar draws Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, gyda mwy o staff yn dod i mewn i swyddi, gofalwyr newydd yn cael eu recriwtio, a hyfforddiant yn cael ei drefnu.*

*Mae canlyniadau'n parhau i gefnogi gwerth Cysylltu Bywydau fel ymyrraeth sydd yn cefnogi adferiad, gyda phobl yn dangos gostyngiad mewn derbyniadau pellach ac mewn atgyfeiriadau ymlaen ar ôl arhosiad gyda Chysylltu Bywydau. Mae profiadau'n parhau i fod yn hynod o gadarnhaol. Cafodd y cynllun ei ddangos fel eitem ITV Wales ar ôl lansio dogfen Sefydliad Iechyd y Byd ar oedd yn rhoi sylw i Gysylltu Bywydau ar gyfer argyfyngau iechyd meddwl.*

## Anableddau Dysgu

### Deilliannau Cynllun Ardal a nodwyd trwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth:

- Cefnogi pobl gydag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol gyda mynediad i wasanaethau ymyriad cynnar yn y gymuned; a mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o anghenion pobl gydag anableddau dysgu.

### Crynodeb Safle'r Farchnad:

- Mae yna angen i gynyddu nifer y pecynnau cefnogaeth penodol ac unigol i bobl ag anableddau dysgu a fydd yn cynnwys mwy o gefnogaeth un wrth un yn y gymuned ac a fydd yn gofyn am recriwtio mwy o wirfoddolwyr.

### Cynnydd:

**Mae'r rhaglen cynlluniau Lles Anableddau Dysgu (AD)** yn dod o fewn amrediad y Bartneriaeth Strategol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Mae cynlluniau'r rhaglen yn canolbwyntio ar iechyd diogel a lles pobl ag AD. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau brosiect Lles AD; Iechyd gwyllt, a gyflenwir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a Sexual Awareness for Everyone (SAFE) a gyflenwir gan Volunteering Matters.

Mae cyfanswm o 1,061 o bobl wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth, gan ddefnyddio 320 o weithgareddau sy'n rhoi amrywiaeth o gefnogaeth ar gyfer iechyd a lles diogel. Mae 319 o wirfoddolwyr wedi ymgysylltu â, ac wedi cefnogi'r gweithgareddau/sesiynau yn 2021/22. Mae'r prosiectau wedi mesur lefelau gweithgareddau corfforol a gwelliant hwyliau unigolion trwy eu hymgysylltiad, gan ddangos cyfartaledd o 73% o gynnydd mewn gweithgaredd corfforol a 95% o welliant mewn hwyliau.

Sefydlwyd **Prosiect Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd** i hyrwyddo iechyd a lles pobl ag anabledd dysgu. Rhoi hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i staff gofal cychwynnol fel bod anghenion iechyd y rheiny sydd ag anabledd dysgu'n cael eu bodloni'n iawn. Trwy ddatblygu gofal iechyd hygyrch, gwybodaeth a chyfleoedd gall pobl ag anableddau dysgu gael profiadau cadarnhaol wrth ddefnyddio gofal cychwynnol.

Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth gyda meddygfeydd i wella canlyniadau iechyd, gan gynnwys datgeliad cynnar a rheolaeth cyflyrau iechyd corfforol a meddwl, yn ogystal â thriniaeth brydlon ac effeithiol ar gyfer cyflyrau mwy brys a difrifol, gan leihau galw felly ar wasanaethau Haen 2 (gwasanaeth a roddir gan ymarferwyr unigol arbenigol mewn lleoliadau cychwynnol a chymunedol gan gynnwys asesiad, gofal ac ymyraethau i blant a phobl ifanc ag angen iechyd meddwl adnabyddadwy ar lefel gynharach, llai cymhleth) a Haen 3 (tîm amlddisgyblaeth mewn gofal cymunedol/cychwynnol i roi lefel ddwys o fewnbwn i gleifion).

- Wrth i'r tîm ehangu i mewn i fwy o feddygfeydd wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi ar ôl pandemig COVID-19, maen nhw wedi gallu rhoi 66 o sesiynau hyfforddiant gyda 247 o unigolion yn mynychu'r sesiynau.
- Mae'r tîm wedi helpu ychwanegu 939 o unigolion pellach gydag AD i gofrestrau Meddygon Teulu, gan ddod â chyfanswm nifer y bobl ag AD sydd wedi eu cofrestru gyda MT i 4792.
- Mae 100% o bobl sydd wedi eu cofrestru nawr yn derbyn Asesiad Meddygol Blynyddol, gan fod ganddyn nhw Broffil Iechyd Unwaith i Gymru.

## Crynodeb My Day My Life

Wedi ei gyflenwi gan Gyngor Sir Fynwy, mae prosiect 'My Day, My Life' yn ddull yn seiliedig ar gryfderau sy'n ceisio galluogi unigolion ag anabledd dysgu i ddatblygu a dilyn eu dyheadau penodol mewn lleoliadau cymunedol pob dydd gyda chefnogaeth eu rhwydweithiau eu hunain. Mae e wedi bod yn ddatblygiad yn Sir Fynwy ers 2014 sy'n gweithio'n bennaf â staff mewnol i ddatblygu'r prosiect ledled y Sir ar draws gwasanaethau mewnol ac wedi eu comisiynu. Gofynnwyd am a chafwyd arian gan y Gronfa Gofal Integredig. Yn benodol, mae'r GGI yn ariannu swydd Rheolwr Gweithredu 'My Day, My Life' sydd â rôl trosfwaol i weithio gyda gwasanaethau wedi eu comisiynu yn ogystal â rhai mewnol i ddatblygu a gyrru'r dull ymlaen a'i wneud yn wirionedd.

- Roedd y gwasanaeth 'My Day, My Life' wedi cefnogi 189 o bobl â lefel uchel o gefnogaeth a chymorth, gyda 37 o sesiynau a hyfforddiant yn cael eu cyflenwi.
- Crëwyd 96 o gynlluniau gyda 154 o nodau a chanlyniadau wedi eu nodi.
- Daeth 141 o bobl i'r sesiynau a ddarparwyd.

Mae nifer sylweddol o bobl wedi ffynnu trwy ddull y gwasanaeth yma ac nid ydynt yn ceisio cefnogaeth ffurfiol. Mae'r rhyngddibyniaeth rhwng 'My Day, My Life' a My Mates yn dal i fod yn ganolog wrth ddarparu ffordd amgen i bobl sydd am adeiladu perthnasau cymdeithasol a mwy personol.

## Awtistiaeth

### Deilliannau Cynllun Ardal a nodwyd trwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth:

- Rhoi diagnosis mwy prydlon o Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd a mynediad i wasanaethau cefnogaeth a gwybodaeth a chyngor.
- Gwella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a derbyniad o bobl awtistaidd.

### Crynodeb Safle'r Farchnad:

- Mae yna angen cynyddol i gyflenwi hyfforddiant pellach ar ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth i bartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol ac ehangach yn y BPRh yn ogystal â'r cyhoedd.

### Cynnydd:

- O fewn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) o Ionawr 2021 mae gennym Fentor Cymheiriaid newydd mewn swydd barhaol. Mae hyn yn dilyn prosiect peilot gan y bwrdd iechyd a ariannwyd trwy Arian Gwelliant Gwasanaeth Iechyd Meddwl.
- Parhaodd gwaith yn y GAI trwy'r pandemig a oedd yn heriol, ond rhoddodd gyfle i weithio'n wahanol. Mae'r gwasanaeth wedi addasu i ddefnyddio ymgynghoriadau fideo i gwblhau asesiadau, sesiynau cefnogaeth, grwpiau a sesiynau awtistiaeth rhithwir ac maen nhw wedi parhau i gefnogi unigolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd yn y ffordd yma. Yn 20/21 mynychodd 154 o bobl y Sesiynau Cyngor Awtistiaeth Rhithiol a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig a therfyn y gwasanaeth galw heibio cymunedol.

## Gofalwyr

### Canlyniadau Cynllun Ardal a nodwyd trwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth:

- Cefnogi gofalwyr di-dâl i ofalu trwy seibiant hyblyg, mynediad at wybodaeth gywir, cefnogaeth rhwng cymheiriaid, cynllunio gofal effeithiol a thrwy mwy o ddeall ymhlith y cyhoedd.
- Gwella lles gofalwyr ifanc a gofalwyr o blith oedolion ifanc, a lleddfu effaith tymor hir pandemig Covid-19.

### Crynodeb Safle'r Farchnad:

- Mae angen o hyd i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr a staff rheng flaen i allu gwybod pan fo pobl yn ymgymryd â chyfrifoldebau gofal a'u cyfeirio at wybodaeth, yn enwedig gofalwyr ifanc.
- Mae cefnogaeth cymheiriaid a darpariaeth seibiant yn cael eu pwysleisio'n barhaus fel blaenoriaeth i ofalwyr ac mae yna angen i gynyddu cefnogaeth trwy bartneriaid trydydd sector a chymunedol i gynyddu cyfleoedd cyfeillio a grwpiau cymunedol.

### Cynnydd:

- Mae Hwb Gofalwyr Gwent wedi derbyn dros 774 o atgyfeiriadau eleni gyda dros 1186 o ofalwyr yn defnyddio'r gwasanaethau amrywiol sydd ar gael trwy Hwb Gofalwyr Gwent a 2181 o ofalwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau.

# Wythnos Genedlaethol Gofalwyr 2021

Ym Mlaenau Gwent, postiwyd cyngor hunan-ofal ar dudalennau Facebook. Cafodd gofalwyr fudd o becynnau hunan-ofal gan gynnwys gweithgareddau, danteithion ac eitemau gofal personol i helpu gydag ymlacio yn ogystal â sesiynau amlsynhwyraidd i rieni a gofalwyr plant ag anableddau a oedd yn cynnwys gwneud bomiau bath gydag arogleuon, lliwiau a gweadedd gwahanol. Roedd yna sesiynau galw heibio rhithwir hefyd a rhoddwyd talebau ar gyfer garddio/bwyd.

*'Gyda'r gefnogaeth oddi wrthych chi, rydw i nawr yn derbyn tri galwad y dydd gan Ofalwyr i helpu gyda Mam a diolch amdanyn nhw...Beth wnawn i hebddyn nhw? Mae'r gefnogaeth rydw i wedi cael gennych chi i gyd wedi bod yn anhygoel ac rwy'n ddiolchgar tu hwnt. Diolch o waelod fy nghalon.'*

Yng Nghaerffili ymgysylltwyd yn uniongyrchol â gofalwyr trwy ddigwyddiadau penodol a'r cyfryngau cymdeithasol. Cynhyrchwyd cyfosodiad o luniau, a rhoddodd busnesau bwyd. Trefnwyd digwyddiadau a theithiau fel teithiau i Sain Fagan, diwrnod sba yng Nghlwb Golff Bryn Meadows, teithiau cerdded o gwmpas llyn Pen y Fan, Parc Cwm Darran a the prynhawn.





Yn Sir Fynwy, ymgysylltwyd â 37 o ofalwyr y gorffennol yr oedd eu rôl fel gofalwyr wedi dod i ben. Cafwyd talebau gan fusnesau lleol i ddangos i gyn-ofalwyr bod eu rôl gofalu yn cael ei gwerthfawrogi a'i chydnabod ac rhoi cyfle iddyn nhw gael amser iddyn nhw eu hunain.

Yng Nghasnewydd paratowyd blychau 'Amser i Fi'. Dewiswyd eitemau yn y blychau i ysbrydoli ymlacio ac amser i ffwrdd o'r rôl gofalu fel 'Ymlacio a Lles' (dyddiadur a deunyddiau celf), 'Ymlacio gyd Natur' (porthwr adar a hadau) ac 'Ymlacio a Maethu' (hadau per-lysiau, siswrn a ryseitiau). Cynhwyswyd dewis o de, coffi, a gwybodaeth i ofalwyr a chardiau argyfwng hefyd. Rhoddodd Llyfrgelloedd Casnewydd 'Storïau i Wneud i Chi Wenu i ychwanegu at y blychau yma. Cafwyd taith dywysedig o erddi Growing Space a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhŷ Tredegar a danfonwyd negeseuon trwy'r cyfyngau cymdeithasol.









# National Carers Week 2021


Yn Nhorfaen roedd yna amrywiaeth o weithgareddau i ofalwyr o blith oedolion a phobl ifanc. I oedolion, plannodd gwirfoddolwyr, gan gynnwys gofalwyr, 400 o flodau mewn gardd i ofalwyr di-dal yn Llyn Cychod Cwmbrân. Ymgysylltodd gofalwyr ifanc â nifer o weithgareddau fel dylunio crysau T a gweithgareddau celf a chrefft gan gynnwys setiau band gwydd a chitiau mwclis/breichledau. Lansiodd Datblygiad Chwaraeon Torfaen rhaglen hyfforddiant 10 wythnos gyda gofalwyr ifanc o bob oed (gan gynnig tenis a rownderi yn ystod digwyddiadau'r wythnos yma) a chefnogodd Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen y digwyddiadau 11-13 a 14+ yn y nos.





*'Mae'r ardd yn arwydd hy-fryd iawn ac rwy'n gobeithio y bydd pobl yn ei mwynhau ac yn ei gwerthfawrogi.'*

*Gofalwr*

Yn draddodiadol byddai BIPAB wedi bod â byrddau gwybodaeth mewn ysbytai ond, yn lle, oherwydd diffyg mynediad i safleoedd eleni, casglwyd addewidion wythnos gofalwyr o flaen llawn a'u rhannu ar-lein trwy gydol yr wythnos ynghyd â gwybodaeth am ofalwyr. Rhannwyd y postiadau yma trwy Twitter, Facebook, a safle Mewnrwyd BIPAB ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener Wythnos y Gofalwyr. Cafodd cyfanswm o 38 o addewidion eu gwneud.




Lansiwyd ein llyfr i ofalwyr ifanc hefyd:
https://youtu.be/JZmyIpTw-1o



## Adnabod a rhoi gwerth ar Ofalwyr

Rydym yn rhoi gwerth ar y pwysigrwydd o adnabod gofalwyr a gwerthfawrogi bod angen amrywiaeth o lwybrau a dulliau posibl er mwyn ymateb, gan nad yw nifer o ofalwyr yn cydnabod eu rôl bwysig ac, yn gwbl yn ôl y disgwyl, maen nhw'n gweld eu hunain dim ond fel aelod o'r teulu.

### I wneud hyn, rydym yn parhau i nodi a chefnogi gofalwyr mewn:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Gofal cychwynnol ac eilaidd.
- Meddygfeydd Teulu a fferyllfeydd ble rydym yn adolygu ein gofalwyr ac yn rhoi'r wybodaeth berthnasol diweddaraf iddyn nhw'n gyson. Yn Haf 2021, gweithion ni gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gofalwyr Cymru i geisio adnabod e-garfan o ofalwyr di-dâl trwy data iechyd a gweinyddol arferol Meddygon Teulu yng Nghymru. **https://icc.gig.cymru/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau/gofalwyr-di-dal-yng-nghymru-creu-e-garfan-i-ddeall-cyflyrau-iechyd-hirdymor-ymhlith-gofalwyr-di-dal-yng-nghymru/**
- Mae Optometreg yn rhoi asesiadau golwg lefel isel i ofalwyr.
- Pob ysgol cynradd ac uwchradd (mae 9 % o ysgolion cynradd ac 83% o ysgolion uwchradd yn ymgysylltu â lefelau achredu). Mewn colegau, nodon ni 100 o ofalwyr trwy ein rhaglen achredu gofalwyr ifanc mewn ysgolion.
- Rhaglen achredu sy'n gyfeillgar i ofalwyr i bob sefydliad ac unigolion yn y sectorau preifat a chyhoeddus, Eleni, cafodd 2 faes gwasanaeth a 6 sefydliad achrediad uwch, mae nifer o ffurfiau wedi bod ar hyfforddiant e.e. hyfforddiant llawn i 281 o staff i holl drinwyr galwadau'r heddlu, a swyddogion desg flaen (154 o staff), gwyliodd 99 arall fideo 15 munud, gwyliodd 530 o bobl y fideo ymwybyddiaeth 5 munud etc.
- Defnyddio cynllun grantiau bach Gwent i adnabod gofalwyr.
- Digwyddiadau cenedlaethol a lleol ac estyn allan ac ymgysylltu â chymunedau amrywiol a bregus e.e. Cynhaliwyd 41 o ddigwyddiadau estyn allan gan ddefnyddio ein hwb symudol.
- Mae'r cynllun cenedlaethol adnabod gofalwyr ifanc ar waith.
- Mae ein panel gofalwyr arbenigol wedi cael eu defnyddio i sicrhau bod llais gofalwyr yn cael ei glywed yng nghynllunio a chyflenwad ein gwasanaethau. Cynhaliwyd 12 cyfarfod o'r panel eleni.
- Cefnogon ni ofalwyr i fod yn fwy ymwybodol yn ddigidol fel y gallan nhw ymgysylltu.

## Cefnogaeth Iechyd a Lles Meddyliol Gofalwyr

Er mwyn cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu ymhellach, defnyddiwyd y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi'r model caffi gofalwyr: cynllun sy'n rhoi mwy o gefnogaeth a gwybodaeth i ofalwyr mewn ysbytai Iechyd Meddwl Oedolion Hyn ledled Gwent.

### Yn 2021 mae hwb gofalwyr Gwent yn dweud:

- Cynhaliwyd 163 o gaffis gan gefnogi 818 o ofalwyr.
- Dywedodd 668 o ofalwyr bod eu lles wedi gwella.
- Cafodd 104 o atgyfeiriadau eu gwneud ar gyfer asesiadau gofalwyr, cafodd 123 wybod am eu hawl i fudd-daliadau; cafodd 652 GCCh i gefnogi eu rôl gofalu.

- Cafodd 627 gyngor i gofrestru fel gofalwyr gyda'u MT, cafodd 155 eu cyfeirio at sefydliadau.
- Cafodd 48 o ofalwyr hyfforddiant.
- Roedd 565 yn teimlo bod pobl broffesiynol yn gwrando arnyn nhw gyda 608 yn teimlo eu bod yn fwy ymwybodol o'r angen i edrych ar eu hôl nhw eu hunain.

Derbyniodd ein cynllun grantiau bach 956 o geisiadau, cafodd 524 o'r rhain eu hasesu mewn cyfarfodydd panel. roedd 154 o'r rhain yn ymwneud â chategori 'Time out' sy'n cynnig seibiant. Ariannodd Llywodraeth Cymru hefyd weithgareddau seibiant o ofalwyr ar draws Awdurdodau Lleol trwy eu cronfa seibiant cenedlaethol gwerth £3miliwn.

## Dementia

### Deilliannau Cynllun Ardal a nodwyd trwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth:

- Gwella canlyniadau i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr (trwy gyflenwi Cynllun Gwaith Dementia ar lefel rhanbarthol).

### Crynodeb Safle'r Farchnad:

- Mae angen i ni gryfhau partneriaethau, gwasanaethau a modelau cyd-gynhyrchu i wella'r canlyniadau i bobl sy'n byw a dementia a'u gofalwyr.

### Cynnydd:

- Dechreuodd amrywiaeth o gyfleoedd buddsoddiad ychwanegol i gefnogi cyflenwi'r Cynllun Gweithredu Dementia yn ystod 2012/2022 gan ddefnyddio £1.6miliwn o arian y GGI Dementia.
- Lansiwyd i Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia Cymru ar 6ed Ebrill 2022. Bydd hyn yn cefnogi ac yn gyrru gwelliant ansawdd mewn ysbytai i gefnogi gwella gofal a phrofiadau i bobl sy'n byw a dementia, eu teuluoedd a gofalwyr.
- Mae is-grwpiau ychwanegol wedi eu datblygu i sicrhau ein bod yn barod i weithredu'r Safonau Dementia Cenedlaethol yn 2023 a mesur yr effaith ar bobl sy'n byw â dementia, eu teuluoedd a gofalwyr yng Ngwent.
- Rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â phartneriaid a chymunedau trwy Weminarau Ymgysylltiad sefydlwyd gan BIPAB, i amlygu'r Safonau Dementia a'r hyn yn byddant yn golygu i bobl sy'n byw â dementia, eu teuluoedd a gofalwyr.
- Rydym wedi parhau i weithio gydag ysgolion a phartneriaid ledled Gwent gan gynnig gweithdai Cyfeillion Dementia a chefnogi cysylltiadau ar-lein gyda chymunedau. Rhoddwyd sesiwn i dros 100 o fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Coleg Gwent, er mwyn iddyn nhw ddod yn Gyfeillion/Hyrwyddwyr Dementia fel rhan o'u rhaglen dysgu.
- Mae gennym Gynhadledd Flynyddol y Gymuned Dementia-Gyfeillgar ym Medi 2022, y cyntaf ers y pandemig. Mae'n gyfle i bobl broffesiynol, arbenigwyr a chymunedau ddod ynghyd a rhannu dysgu, syniadau a chydweithio i wella Cymunedau Dementia-Gyfeillgar.

- Cafodd buddsoddiad ei wneud ar gyfer 120 o ddyfeisiau Gweithgareddau Therapi Atgofion Rhyngweithiol (RITA) ym mlwyddyn ariannol 2020/2021 gan gynnwys fersiynau gwahanol o amrywion (ffurf tabled, sgrin gyffwrdd fawr ar droli a fersiwn ITU). Mae'r rhain wedi ei dosbarthu i gartrefi gofal preswyl, ysbytai a thimau gofal iechyd amrywiol. Mae 140 o ddyfeisiau pellach wedi eu prynu i'w dosbarthu ledled Gwent mewn cynllun peilot.
- Mae 500 o ddyfeisiau HUG by Laugh wedi eu prynu i'w dosbarth ledled Gwent fel rhan o gynllun peilot Bydd canllaw yn cael ei greu cyn dosbarthu yn ehangach ar draws pob sector. Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso ar y cyd â TEC Cymru.

## Astudiaeth Achos




### Cynllun Peilot Band Arddwrn Dementia

**Ym Mai 2022 rhoddodd cynllun peilot dan arweiniad Heddlu Gwent gymorth ychwanegol i bobl â dementia trwy strap arddwrn, sy'n defnyddio Cyfathrebiadau Maes Agos. Heddlu Gwent yw'r heddlu cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu cynllun ac maen nhw mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a Chymdeithas Alzheimer Cymru. Mae'r cynllun peilot wedi ei lansio ar draws Gwent gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn ledled Cymru. Mae'r cynllun strap arddwrn yn golygu bod gweithwyr y gwasanaethau brys yn gallu gweld a sicrhau'r cymorth a'r gefnogaeth gywir i'r rheiny sy'n byw â'r cyflwr. Fel rhan o gynllun peilot, bydd 80 o drigolion yn cael cynnig y band a fydd yn cysylltu darparwyr gofal gyda gweithwyr gwasanaethau brys.**

### Cyn y lansiad, dywedodd y Prif Arolygydd Stephanie Blakemore:

***"Mae byw â dementia'n frawychus yn aml ac yn eich gadael chi'n teimlo'n unig. Pan fo gan rywun â dementia angen am gymorth gan ymarferwyr y gwasanaethau brys, mae gofyn cryn dipyn o waith i gasglu'r holl wybodaeth i ofalu'n iawn am y person hwnnw. Mae'r band arddwrn yn rhoi gwybod yn weledol i'r cyhoedd, y gwasanaethau brys a darparwyr eraill gofal bod yr unigolyn yn byw â dementia."***

**Mae'r cynllun yn ategu Protocol Herbert y mae Heddlu Gwent yn gefnogol iddo, ochr yn ochr â lluoedd eraill Cymru. Mae'r cynllun yn rhoi gwybodaeth werthfawr am unrhyw un sy'n byw â dementia a chyflyrau niwrolegol eraill. Mae'r protocol yn rhoi gwybodaeth i weithwyr gwasanaethau brys am feddyginiaeth, gwybodaeth gyswllt, mannau ymwelir â nhw'n aml a llun diweddar Dywedodd y Cynghorydd Paul Cockeram, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent:**

***"Os yw person yn mynd ar goll neu'n drysu allan yn y gymuned, gall fod yn brofiad gofidus iawn i'r person sy'n byw â dementia, a'u teuluoedd a gofalwyr. Mae BPRh Gwent yn falch o gefnogi Heddlu Gwent a phartneriaid fel yr ardal gyntaf yng Nghymru i roi tro ar y dechnoleg yma. Bydd y bandiau arddwrn yn cynnwys gwybodaeth hanfodol, gan gynnwys enw'r sawl sy'n gwisgo a manylion teulu agosaf, sydd ar gael i aelodau'r gymuned trwy eu ffôn os byddan nhw'n canfod rhywun sydd angen cymorth a chefnogaeth. Nid yw'r dechnoleg yma'n disodli gofal da ond bydd yn gyfrwng ychwanegol at ddiogelu ochr yn ochr â Phrotocol Herbert, i helpu i gadw pobl yn ddiogel, wrth i bobl barhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw fyw'n dda."***

## Astudiaeth Achos




### Mentro Gyda'n Gilydd Gwent

Cynllun enghreifftiol cenedlaethol a arweinir gan y Dr Natalie Elliot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyda nifer o is-grwpiau wedi eu sefydlu ledled Cymru i fynd â'r prosiect ymlaen, yw Mentro Gyda'n Gilydd. Fe'i ddatblygwyd i gefnogi pobl trwy newidiadau mewn mannau cymunedol yn ystod y pandemig, trwy pytiau byr o fideo ar wefan Dewis Cymru. Mae'r prosiect yn edrych nawr at gefnogi agenda adferiad ar ôl Covid-19, ac mae fideos yn cael eu datblygu nawr i groesawu pobl yn ôl i fannau a gwella cynhwysiant cymdeithasol.

Fel rhan o'r grŵp cenedlaethol, rydym hefyd yn gweithio gyda chwmni technoleg sy'n cynnig ap fel rhan o gynllun peilot gyda'r ap yma, fel y gall pobl wneud eu cynnwys a'u clipiau eu hunain sy'n fwy penodol ar gyfer eu hanghenion eu hunain. Hefyd, gall gofalwyr ac aelodau'r teulu wneud fideos i gefnogi eu hanwyliaid, gydag rhywbeth i atgoffa a gwybodaeth ddefnyddiol pan fyddan nhw allan yn siopa neu gyda'r MT etc.. Gall y pytiau yma gael eu cadw mewn calendr yn yr ap, gan adael i bobl gynllunio'u diwrnod gyda pytiau fideo a phethau i'w hatgoffa. Mae Data Cymru'n olrhain nifer y bobl sy'n gweld tudalennau ar gyfer y prosiect, ac rydym wedi cael dros 1 miliwn o olygon yn y 12 mis diwethaf ar draws y prosiect i gyd.












# Cysur mewn Casglu ac Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion

Yn Nhachwedd 2021, lansiodd Amgueddfa Cymru gam 2 ei rhaglen ‘Cysur mewn Casglu’ a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington ac Ymddiriedolaeth Elusennol D’ Oyly Carte. Mae hwn yn estyniad o’r gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen yn ystod y pandemig i greu adnoddau ar sail casgliadau i bobl mewn cartrefi gofal, y rheiny sydd mewn perygl o ynysu cymdeithasol a’r rheiny sy’n chwlio am weithgareddau mewn sesiynau grwp. Mae’r adnoddau yma y gellir eu lawrlwytho’n gallu cael eu defnyddio fel sail ar gyfer gweithgareddau, neu fel rhywbeth i hybu sgyrsiau ystyrlon ac atgofion. Yng ngham 2, mae’r amgueddfa wedi cydweithio gydag artistiaid ar ymarferwyr creadigol ar draws Cymru i gynhyrchu cyfres o ffilmiau gyda’r bwriad o wella lles y rheiny sy’n eu gwylio. Maen nhw’n amrywio o daith gerdded myfyriol ar draeth wedi ei hysbrydoli gan ffotograffiaeth John Dilwyn Llewelyn at gipolwg ar gasgliadau serameg, ac artist gwydr a ysbrydolwyd gan y casgliadau o wydr Rhufeinig. Mae nifer o ffilmiau a arweinir gan guraduron sy’n dangos y casgliadau yn cael eu gwneud a’u rhyddhau hefyd fel rhan o rhaglen ‘Cysur mewn Casglu’. Mae pob peth ar gael i’w weld neu lawrlwytho o wefan Amgueddfa Cymru: amgueddfa.cymru/lles/cysur-mewn-casglu/ ac mae cynnwys newydd yn cael ei ychwanegu pob mis.

Mae’r dysgu o raglen Cysur mewn Casglu a gwaith parhaus gyda phartneriaid wedi bod yn amhrisiadwy ar gyfer y cais llwyddiannus diweddar i Gronfa Gymunedol ‘Pawb a’i Le’ y Loteri Genedlaethol ar gyfer partneriaeth ‘Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion – Gweithio ar gyfer Dementia’ gyda Chymdeithas Alzheimer Cymru. Bydd y bartneriaeth yn arwain datblygiad a chyflenwad rhaglenni cyfoethogi i wella ansawdd bywyd y rheiny sy’n cael eu heffeithio gan dementia ar draws Cymru dros y tair blynedd nesaf, wedi eu cyd-gynhyrchu gan bobl â phrofiad byw. Bydd hefyd yn datblygu hyfforddiant dementia wedi’i deilwra i staff yn y sector treftadaeth a’r rheiny yn y sector gofal i wella ymwybyddiaeth a sgiliau i fod yn dementia-gynhwysol.



# Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai

## Deilliannau Cynllun Ardal a nodwyd trwy Asesiad Anghenion y Boblogaeth:

- Partneriaeth aml-asiantaeth i sicrhau tai priodol a llety i bobl hŷn a thrigolion bregus.
- Sicrhau defnydd effeithiol o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a chefnogaeth bartneriaeth briodol ac adnoddau sydd ar gael.
- Digartrefedd yn gofyn am ymateb cydweithredol gan wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid, yn enwedig o ran peidio â defnyddio llety gwely a brecwast i bobl ifanc, a thrwy atal ac ymyrraeth gynnar.

## Cynnydd:

- Mae'r Bartneriaeth IGCaTh yn parhau i oruchwylio'r Grant Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a pharatoi ar gyfer gweithredu'r Gronfa Rhanbarthol Integreiddio Tai a Gofal (rhaglen 4 blynedd) i gefnogi llety dan denantiaeth i bobl ag anghenion cymhleth, yn arbennig ble nad yw safonau tai fforddiadwy yn briodol, llety gofal canolradd (e.e. camu i fyny/lawr, preswyl plant) ac ariannu yn ôl disgresiwn (cymhorthion/addasiadau, astudiaethau ymarferoldeb etc.)
- Mae Gofal a Thrwsio CSF a CBST yn parhau i gyflenwi prosiect Ysbyty i Gartref Iachach i gefnogi gollwng o'r ysbyty. Mae pob £1 sy'n cael ei gwario ar addasiadau'r cartref i gefnogi gollwng yn rhydd o'r ysbyty yn gynt yn arbed £7.50 mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
- Rhoddodd y Bartneriaeth gefnogaeth rhanbarthol i bartneriaid unigol mewn perthynas â Digartrefedd a dod ag agendâu troi allan i ben yn ystod y pandemig a bydd, yn y dyfodol yn cydlynu ymateb rhanbarthol i'r polisi Ailgartrefu Cyflym.
- Trosolwg o'r Rhaglen Grant Cymorth Tai (GCT) yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni ymyrraeth gynnar a chymorth a chymorth i wasanaethau digartrefedd a gwaith i helpu pobl i sefydlogi ei sefyllfa tai, atal pobl rhag mynd yn ddigartref, neu helpu pobl sydd wedi eu heffeithio gan ddigartrefedd i gael hyd i a chadw llety.
- Datblygodd gweithgor Camddefnydd Sylweddau a Thai sy'n adrodd i'r Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Grŵp Cydlynu Grantiau Cymorth Tai Rhanbarthol gwrs hyfforddiant camddefnydd sylweddau ar-lein am ddim wedi ei dargedu at staff tai.

## Astudiaeth Achos



### Ty Glas y Dorlan

**Astudiaeth Achos: Mae Tŷ Glas y Dorlan ym Mryn Eithin, Cwmbrân yn sefydliad cydweithredol gan BIPAB, Cyngor Torfaen a Bron Afon a agorodd yn hydref 2021. Dyma enghraifft wych o atebion ariannu cymysg i gyflenwi gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai ar y cyd.**

Cafodd y cynllun gwerth £3.3miliwn ei ariannu'n rhannol trwy £1.78miliwn o arian cyfalaf y CGI, gyda'r gweddill yn dod o'r Rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol a Chyllid Preifat Bron Afon. Cyflenwodd y prosiect gyflogaeth leol, rhaglenni hyfforddiant wedi eu strwythuro ar gyfer sgiliau allweddol a phrosiect a gwblhawyd yn gynnar ac o fewn terfynau cyllidebol. Mae'n hwb lles amlbwrpas ble bydd croeso cynnes cyfeillgar ar gael bob amser i westeion, tenantiaid, y gymuned, pobl broffesiynol, ymwelwyr a'r cyhoedd.

- Bydd Tŷ Glas y Dorlan yn cynnig cefnogaeth i oedolion dros 18 oed a'r rheiny sydd ychydig o dan oedran trosglwyddo i fod yn oedolion.
- Bydd gan Dŷ Glas y Dorlan 6 fflat llawr uchaf ar gyfer tenantiaethau tymor hir.
- Bydd gan Dŷ Glas y Dorlan 13 fflat arhosiad byw i westeion weld beth sy'n bosibl o ran annibyniaeth.
- Bydd gan Dŷ Glas y Dorlan gefnogaeth yn ôl sesiwn i'r rheiny nad ydynt am aros dros nos.
- Bydd Tŷ Glas y Dorlan yn cynnig gyngor am gefnogaeth lles, cymdeithasol a chymunedol i'r rheiny sydd ei hangen.

## Astudiaeth Achos

Bydd yr hwb yn cynnig lle cyfeillgar i wella, gyda'r cwbl yn teimlo fel gwesty. Lle sy'n fwy nag adeilad, a fydd yn galluogi pobl i fagu hyder trwy annibyniaeth. Lle cymdeithasol creadigol er mwyn estyn llaw a datblygu cysylltiadau a chyfeillgarwch. Lle ble mae rhoi tro ar bethau newydd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn cael ei annog a'i ddathlu. Lle ble na all pobl fethu gan fod dysgu i wneud pethau mewn ffordd wahanol yn unigol ac maen nhw'n gallu bod gyda'i gilydd gyda gofalwr neu ar wahân cyn dychwelyd gartref.

Bydd Tŷ Glas y Dorlan hefyd yn cynnig seibiant byr gyda gweithgareddau ac adloniant dan gyfarwyddyd y gwesteion yn yr hwb i gael cyfle i orffwys a "symud i ffwrdd o bob dim" gyda grwpiau cyfeillion, pobl â'r un diddordebau neu gyda gofalwyr hefyd.

I'r rheiny sy'n dewis aros, bydd gofal a chefnogaeth ar gael ar y safle 24/7 gyda mynediad at Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion a phobl broffesiynol eraill sy'n dod ag atebion trwy gydol y diwrnod. Hefyd, bydd cyfleoedd i'r gymuned leol gael gweithgareddau dyddiol a chymorthfeydd.

### Cefnogaeth Gweinidogion a Lleol

**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James:**

*"Bydd y cartrefi yma'n rhoi hwb anferth i ofal cymunedol a lles pobl ag anableddau dysgu i'w helpu i barhau i fyw'n annibynnol. Mae'r prosiect yma'n enghraifft wych o gydweithredu i gefnogi gofynion iechyd a gofal pobl yn y gymuned ac yn agos at gartref."*

# RHAN 2b: Cefnogi Integreiddiad a Chyflenwad Gwell

## Ariannu Gofal Integredig ac Ariannu Trawsnewidiad

**Mae'r BPRh a'r Swyddfa Rheolaeth Portffolio (SRhP) wedi goruchwylio a chynhyrchu adroddiad Cau Rhaglen yn amlinellu'r defnydd o'r CGI ac arian Trawsnewidiad yn ystod 2021/22. Mae'r adroddiad ar gael ar gais.**

### Gwella Llif y System:

Defnyddiodd y Rhaglen Gwella Llif y System arian gofal integredig yn 2015. Erbyn 2021-2022 mae'r dyraniad arian blynyddol ar gyfer y bartneriaeth wedi cyrraedd £4,615,531.00. Amcan y Rhaglen Gwella Llif y System yw cyflymu gollwng o'r ysbyty'n ddiogel ac yn effeithlon, gan gefnogi pobl i ddychwelyd adref gyn gynted ag y maen nhw yn y sefyllfa orau. Bwriad y rhaglen waith yw lleihau hyd arosiadau mewn ysbytai, lleihau'r oedi mewn trosglwyddo gofal, gwella profiadau a chanlyniadau i gleifion, ac atal niwed sy'n cael ei achosi am fod pobl yn datgyflyru yn ystod amser y gellid ei osgoi mewn gwely ysbyty. Ochr yn ochr â chefnogi cleifion â gollwng yn gynnar o'r ysbyty, mae gwasanaethau o fewn y Rhaglen Gwella Llif y System yn gweithio i gefnogi pobl yn y gymuned i atal derbyn neu ail-dderbyn i'r ysbyty. Mae'r Rhaglen Gwella Llif y System yn cyd-fynd â model gofal Home from Hopsital, y chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng (Nod 6 - Dull Cartref yn Gyntaf a lleihau'r perygl o ail-dderbyn i'r ysbyty) a'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (DR2A) Cartref yn Gyntaf. Mae Model D2RA yn rhoi fframwaith ar gyfer cynllunio a chyflenwi integredig gwasanaethau cymunedol ac ysbyty.

### Mae'r rhaglen yn cefnogi pedair egwyddor allweddol y model D2RA:

1. **Meddyliwch am 'Gartref yn Gyntaf' gan gadw'r unigolyn yn ganolog i'r holl ystyriaethau rhyddhau.**
2. **Cydbwyso risg a chytuno ar gynlluniau wedi'u cyd-gynhyrchu, a'u dogfennu'n glir.**
3. **Sicrhewch fod y seilwaith gwasanaethau cymunedol ar waith.**
4. **Cyfathrebu.**

Mae'r rhaglen Gwella Llif y System wedi cefnogi **5035 o unigolion** rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2022 gyda **2728 o oriau o ymyrraeth** i naill ai atal derbyniadau i'r ysbyty , neu drwy lwybrau gollwng yn rhydd. **Cafodd 6983 o ymweliadau cymorth eu gwneud i osgoi derbyniadau i'r ysbyty**. Mae'r prosiectau wedi nodi eu bod wedi **arbed 4168 o ddiwrnodau mewn gwelyau ysbyty**, gan gefnogi capasiti i gleifion sydd angen gofal llym mewn ysbyty, a lleihau niwed cysylltiedig gyda diwrnodau dianghenraid mewn gwely ysbyty. Dywedwyd **bod 97% o unigolion a holwyd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth y bu iddyn nhw dderbyn. Dywedwyd bod 59% o unigolion yn byw'n annibynnol, a llwyddodd 53% o unigolion i gyrraedd nodau/canlyniadau** trwy gydol y rhaglen.

### Cynllun Gweithredu Dementia 2018-22

Mae'r Bwrdd Dementia rhanbarthol yn goruchwylio datblygiad a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Dementia (CGD) cenedlaethol ar draws Gwent; ac amlygir cynnydd cyffredinol yn rhan 2a uchod, gan gynnwys sut mae'r BPRh wedi cyflenwi yn ôl amcanion y CGD Mae'r Bwrdd Dementia wedi ystyried y Safonau Dementia newydd a chyfuniad strategol ar draws meysydd blaenoriaeth CGD, a bydd hyn yn cael ei ymwreiddio yn ystod 2022/23. Mae'r dyraniad CGI wedi ei ddosbarthu a'i ddyrannu yn unol â nodau'r CGD ac mae manylion pellach yn yr Adroddiad Cau Rhaglen y CGI.

## RHAN 3: Cyfathrebu, ymgysylltiad a gwerth cymdeithasol

**i** **Sut ymgysylltodd eich Bwrdd yn uniongyrchol â defnyddwyr y gwasanaeth, neu grwpiau sy'n cynrychioli defnyddwyr y gwasanaeth (e.e. paneli trigolion).**

### Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltiad:

Bydd y BPRh yn gweithio i loywi eu dull strategol o gyfathrebu ac ymgysylltu. Mae cynlluniau ar y gweill i ail-ddylunio ac atgyfnerthu gwefan BPRh Gwent i godi proffil y BPRh gyda'r cyhoedd a phobl broffesiynol. Bydd y dyluniad newydd yn cynnal ardal 'gymunedol' a fydd yn gweithredu fel llwyfan i rannu gwaith y BPRh ar draws Gwent, i gael trigolion i gymryd rhan mewn penderfyniadau polisi a rhannu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

### Panel Trigolion - BPRh:

Mae Deddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gosod gerbron, trwy egwyddorion cyd-gynhyrchu, yr angen bartneriaid, gan gynnwys trigolion, gydweithio. Mae'r Cadeirydd a'r is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ac yn rhoi adborth ar bynciau a drafodwyd yn y Cyfarfodydd Panel Trigolion. Oherwydd y pandemig cafwyd fformat newydd i'r cyfarfod. Ymunodd y rhan fwyaf o'r panel yn rhithwir a derbyniodd y rheiny nad oedd yn gallu, neu a oedd yn dewis peidio, gopïau o nodiadau fel nad oedd neb yn cael eu cau allan.

***"Mae mynychu Panel Trigolion Gwent yn rhoi cyfle i mi fynegi pryderon am faterion sy'n bwysig i mi , mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â chlywed gwybodaeth newydd a defnyddiol. Mae'n rhoi mynediad hefyd i mi at bobl sy'n aml yn gallu i wneud pethau i ddigwydd. Rwy'n mwynhau'r fraint o godi pwyntiau o fy nghymuned a bwydo'r rheiny yn ôl iddyn nhw." -** Un o Drigolion PTG*

## Eitemau arferol ar yr agenda ac a drafodwyd ym mhob cyfarfod:

- **Gollwng o Ysbytai** – Cyflwynwyd enghreifftiau achos o'r panel i Mel Laidler (BIPAB).
- **Adroddiad BPRh** – Mae adborth o'r cyfarfodydd yn cael ei roi mewn adroddiad y mae'r Cadeirydd yn mynd ag e i'r BPRh.
- **Diweddariad Covid 19** – Trafod unrhyw faterion a phryderon cyfredo.
- **Materion Trafnidiaeth** – Trafod unrhyw faterion a phryderon cyfredol yn.
- **Pencampwyr Iechyd/Lles** – diweddariadau pan fo'n berthnasol.

## Rhai eitemau eraill ar yr agenda a gafodd eu dwyn i'r cyfarfodydd:

- **Dilyn y Ddeddf** – Cyflwyniad gan Ofalwyr Cymru. O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, mae gan ofalwyr yng Nghymru hawliau cyfreithiol cyfartal i gefnogaeth yn ogystal â'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanynt.
- Daeth **Prif Weithredwr BIPAB** BIPAB i gyfarfod Medi i drafod pandemig Covid 19, y rhaglen frechu, cynllun blynyddol ac i ateb cwestiynau'r panel.
- **Cymunedau Caredig** – Cyflwyniad BIPAB yn cynnwys storïau cleifion.
- **Arolwg Ymgysylltiad Cynllun Heddlu a Throsedd** – Danfonwyd dolen i'r panel ei gwblhau.
- **Adroddiadau Ymgysylltiad** – GAVO a TVA. Canlyniadau o'r arolwg a oedd y holi pobl a ddefnyddiodd wasanaethau iechyd yn ystod y pandemig. Trafodwyd materion BAME hefyd.
- **Cyflwr Gofal yng Nghymru** – Cyflwyniad gan Ofalwyr Cymru. Mae nifer cynyddol o ofalwyr. Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: 4 blaenoriaeth genedlaethol a chynllun cyflenwad.
- **Credydau Amser** – Mae credydau amser papur wedi mynd yn ddigidol nawr. Anogwyd y panel i ymuno â'r cynllun.
- **Diweddariad Gofal Cychwynnol BIPAB** – Mae ymweliadau wyneb yn wyneb ac i gartrefi yn bwysig fel dull cyfunol. Rhaid i'r system ffôn fod yn addas. Mae recriwtio a chadw staff yn bwysig. Cafwyd oedi gyda gwaith deintyddol oherwydd y pandemig, achosodd hyn ôl-groniad a bydd gofal brys yn cael ei flaenoriaethu.
- **Gwasanaethau Dydd** – Caewyd nifer o wasanaethau dydd ac roedd pobl ag anableddau dysgu'n defnyddio mwy o wasanaethau lleol sydd ar gael iddyn nhw.
- **Asesiad Anghenion y Boblogaeth** – Edrychodd y cyflwyniad ar y cynnydd yn y boblogaeth a themâu craidd gan gynnwys Dementia, pobl hŷn, Gofalwyr, Iechyd Meddwl, Plant mewn Gofal, Anableddau Dysgu, Awtistiaeth, Tai a'r camau nesaf.
- **Comisiynydd Pobl Hyn** – Cyflwyniad Helena Herklots am flaenoriaethau: Gwarchod a Hyrwyddo Hawliau Pobl Hyn, Atal Camdriniaeth Pobl Hyn, Rhoi Diwedd ar Oedraniaeth a Galluogi Pawb i Heneiddio'n Dda.

## Cydweithrediad a chyfranogiad gyda phartneriaid perthnasol ac oedolion ag anghenion gofal a chefnogaeth, gofalwyr, pobl â dementia a plant a phobl ifanc:

- Mae gofalwyr yn eistedd ar Fwrdd Partneriaeth Strategol Gofalwyr Gwent ac yn rhoi llais i ofalwyr ledled y rhanbarth. Mae'r bwrdd hefyd yn cysylltu â grwpiau gofalwyr sydd wedi eu sefydlu a chydlynwyr ym mhob un o'r 5 ardal awdurdod lleol a BIPAB.
- Mae'r Bwrdd Dementia'n goruchwylio Cymunedau Cyfeillgar i Dementia ar draws y rhanbarth gyda 5 grŵp lleol yn cydlynu cyflenwad ac ymwybyddiaeth o Gyfeillion Dementia Mae pobl â Dementia a'u gofalwyr yn eistedd mewn grwpiau lleol ac yn helpu i gyd-gynhyrchu ffyrdd o gyflenwi CDiD. Rydym wedi bod yn parhau i gysylltu â phobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr trwy weminarau a fforymau ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Mae'r bartneriaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu wedi ymgysylltu â phobl o fewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltiad a Chyfranogiad i Went, i helpu i drawsnewid gwasanaethau'r dyfodol ac maen nhw'n ystyried cyflwyno hyfforddiant cyd-gynhyrchu i bobl broffesiynol ac arbenigwyr trwy brofiad.
- Mae'r BPRh wedi ymgysylltu ag aelodau Grŵp Undeb Myfyrwyr Coleg Gwent sydd wedi bod yn gweithio ar Adnoddau Iechyd Meddwl ac yn adolygu taflenni/cyfathrebu presennol y Bwrdd Iechyd ynglŷn â phwysau arholiadau. Rhoddodd y grŵp adborth adeiladol ynglŷn â sut allem addasu ein hadnoddau ar gyfer pobl iau mewn perthynas â themâu fel LHDThQ+, Iechyd a Pherthnasau Rhywiol, ac yn ail, datblygu cynnwys ar wefan Melo.
- Ymgysylltodd y BPRh hefyd gyda'r Fforwm Ieuenctid Rhanbarthol o glych Ymgyrch Iechyd Meddwl ar ôl cwblhau arolwg cenedlaethol Senedd Ieuenctid y DU **Gwnewch Eich Marc.**
- Grŵp rhieni niwro-ddatblygiad - rydym yn gweithio gyda rhieni sy'n aros am asesiad ar gyfer eu plentyn i ddatblygu atebion o gylch sut allem roi cefnogaeth i deuluoedd ar y rhestr aros. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r grŵp i greu hunaniaeth i'r grŵp (enw/datganiad cenhadaeth) a gweithio ar ein 'hamcanion craidd' ar gyfer y dyfodol.

**Sut rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, partneriaethau strategol eraill, darparwyr gwasanaethau o'r trydydd sector a'r sector annibynnol -**

Mae partneriaid o'r trydydd sector yn eistedd ar y BPRh gan gynnwys Cadeiryddion ac uwch arweinwyr strategol o'r 2 Gyngor Gwirfoddol: Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen (TVA). Mae cadeirydd y Fforwm Darparwyr hefyd yn eistedd ar y BPRh i sicrhau llais i ddarparwyr lleol. Mae'r trydydd sector hefyd yn cael eu cynrychioli ar y partneriaethau strategol o dan y BPRh gan gynnwys cynrychiolwyr cynghorau gwirfoddol ar y Bwrdd Gofalwyr, GASP, y Bwrdd Dementia a rhwydwaith benodol i'r trydydd sector o dan y Bwrdd Plant a Theuluoedd. Mae'r llais a'r mewnbwn o'r trydydd sector wedi cyfrannu at waith partneriaeth ar draws y rhanbarth ar bob lefel ac, yn arbennig, sicrhau bod arian CGI yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar draws y trydydd sector, yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru i BPRhau sicrhau bod cyfran penodol ar gael. Mae staff y trydydd sector hefyd wedi cael eu secondio i weithio yn y Swyddfa Rheolaeth Perfformiad i weinyddu arian CGI a Thrawsnewidiad.

Mae'r Tîm Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cefnogi'r BPRh yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn eistedd ar grŵp rhanbarthol ar y cyd ar gyfer asesiad ac ymgysylltiad. Mae Cadeirydd y BGC hefyd wedi mynychu ac wedi cysgodi aelodau'r BPRh mewn cyfarfodydd. Mae'r 5 BPRh nawr wedi cyfuno i fod yn fwrdd rhanbarthol ac wedi datblygu grŵp ymgysylltiad rhanddeiliaid rhanbarthol, ac mae swyddogion y BPRh yn mynychu i sicrhau synergedd.

**Cynnydd i sefydlu fforymau gwerth cymdeithasol i hyrwyddo gwerth cymdeithasol a rhannu arfer da.**

Cyflwynodd y BPRh adroddiad fforwm gwerth cymdeithasol i Lywodraeth Cymru yn gosod gerbron camau penodol a chynnydd. Yn ystod 2019/20, defnyddiwyd arian Trawsnewidiad i ledaenu ymgysylltiad gyda rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu fforymau gwerth cymdeithasol Cefnogodd y Bwrdd Dementia hefyd fforwm gwerth cymdeithasol i gefnogi pobl sy'n byw â dementia ond lleihawyd nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig.

# PART 4: Edrych Ymlaen

**Cyflwynodd effaith Covid-19 heriau sylweddol ar draws y rhanbarth gydag asiantaethau partner yn dal mewn cyfnod o adferiad, er gwaethaf llacio cyfyngiadau ehangach.**

## Nododd yr Asesiad Anghenion y Boblogaeth newydd nifer o flaenoriaethau ac, yn arbennig:

- Ffocws parhaus ar blant ag anghenion cymhleth a phlant mewn gofal, yn enwedig darpariaeth ac effaith lleoli y tu allan i'r sir.
- Yr angen cynyddol i gefnogi pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, yn enwedig gyda chefnogaeth gymunedol ac ymyrraeth fwy cynnar.
- Mae'r farchnad gofal yn y cartref yn gofyn am atebion i recriwtio tymor hir.
- Lleihau pa mor hir yw arosiadau yn yr ysbyty i bobl hŷn ac iddyn nhw ddychwelyd adref yn ddiogel gyda chefnogaeth gynaliadwy.
- Arwahanrwydd, unigrwydd, ac effaith ar iechyd meddwl.
- Mae seibiant yn hanfodol i ofalwyr ac mae angen iddo fod ar gael mewn ffordd amserol a hyblyg (ffurfiol, anffurfiol) yn enwedig mewn sefyllfaoedd o argyfwng.
- Effaith Covid-19 ar wasanaethau dydd i bobl gydag anableddau dysgu.
- Recriwtio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig gweithwyr Gofal yn y Cartref.

Bydd y BPRh nawr yn datblygu'r Cynllun Ardal Newydd ac yn dweud sut bydd y blaenoriaethau rhanbarthol yn cael eu dwyn ymlaen.

# Atodiad 1: Cofrestr o gyfarfodydd y BPRh am yn ail fis

| Dyddiad cyfarfod | Math o gyfarfod | Pynciau allweddol a gynhwyswyd |
|---|---|---|
| **Mehefin 2021** | Sesiwn yn Canolbwyntio | Rolau, Cyfrifoldebau, Cynllunio a Risg. |
| **Gorffennaf 2021** | Cyfarfod Busnes | Adolygiad Myfyriol/Diweddariad Covid-19, Adborth o'r Panel Trigolion Rhanbarthol, Y Gronfa Gofal Integredig - Sefyllfa Ariannu/Cyllid Partneriaeth, Cymru Iachach 2021/22, Adroddiad Blynyddol BPRh/Asesiad Anghenion y Boblogaeth, Diweddariad y BGC Rhanbarthol, Adroddiad Arweinydd Deddf Galluedd Meddyliol, Cylch Gorchwyl, Arolwg Ymgysylltiad, Gohebiaeth Llywodraeth Cymru/Arall. |
| **Awst 2021** | Cyfarfod Arbennig | Ymweliad y Comisiynydd Plant. |
| **Medi 2021** | Cyfarfod Busnes | Cyllideb Eiddilwch Gwent 2021/22. Sefyllfa Covid 19 a'r Grŵp Cydlyniad Tactegol/Briffio Pwysau Cymunedol a'r Cynllun Gweithredu/Adolygiad Myfyriol, Ariannu Grant Llywodraeth Cymru, Rhaglen Waith y BPRh gan gynnwys Hunanasesiad, Adborth gan y Panel Trigolion Rhanbarthol, Diweddariad gan y Grŵp Arweinyddol, Adborth gan Fforwm Cadeiryddion y BPRh/Egwyddorion y BPRh Y mholiadau Aelodau Unigol (sy'n Gofyn am Ymateb Ysgrifenedig) Gohebiaeth Llywodraeth Cymru/Arall. |
| **Tachwedd 2021** | Cyfarfod Busnes | Arian Grant Llywodraeth Cymru, Cynllunio Gaeaf y BPRh, Barn Panel Trigolion Rhanbarthol, Ymholiadau Aelodau Unigol (sy'n Gofyn am Ymateb Ysgrifenedig), Gohebiaeth Llywodraeth Cymru/Arall/ Adborth ar ôl Papur Gwyn Gofal Cymdeithasol. |
| **Rhagfyr 2021** | Sesiwn yn Canolbwyntio | Cynllun Peilot Hunanasesiad y BPRh. |
| **Ionawr 2022** | Cyfarfod Busnes | Consortiwm Rhanbarthol y Gweithlu a Cholegau/Diweddariad Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol/Diweddariad Coleg Gwent/Ateb i Ofal, Arian Grant Llywodraeth Cymru/ Diweddariad ar Raglen Waith 2021/22/Model Ariannu Partneriaethau Newydd a Chyfarwyddyd, Llywodraethu a Chyflenwi Cynllunio Gaeaf y BPRh, Barn y Panel Trigolion Rhanbarthol, Gohebiaeth Llywodraeth Cymru/Arall. |
| **Ionawr 2022** | Sesiwn yn Canolbwyntio | Cynllun Peilot Hunanasesiad y BPRh. |
| **Chwefror 2022** | Sesiwn yn Canolbwyntio | Model Ariannu a Rhaglen y BPRh yn y Dyfodol. |
| **Mawrth 2022** | Cyfarfod Busnes | Asesiad Anghenion y Boblogaeth, Hunanasesiad ac Adolygiad Llywodraethiant y BPRh, Cynhadledd Risg Covid-19, Ariannu Llywodraeth Cymru/Diweddariad ar Raglen Waith 2021/22/Model Ariannu Partneriaethau Newydd a Chyfarwyddyd/Rhaglen Gyfalaf, Barn Panel Trigolion Rhanbarthol, Gohebiaeth Llywodraeth Cymru/Arall. |
| **Mawrth 2022** | Sesiwn yn Canolbwyntio | Trosolwg Amlinelliad Strategol Ariannu Integredig Rhanbarthol. |
| **Mai 2022** | Cyfarfod Busnes | Gohiriwyd oherwydd etholiadau a chyflwyno Aelodau Gweithredol Newydd. |


# Atodiad 2: Aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae aelodaeth gofynnol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w weld yng nghyfarwyddyd statudol yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dylai gynnwys aelodau etholedig llywodraeth leol o bob awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pob awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd, Aelodau Annibynnol y Bwrdd Iechyd Lleol, Prif Weithredwr a uwch Gyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd Lleol yn yr Ardal, Cadeiryddion Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol yn ardal y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd hyblygrwydd hefyd i gyfethol aelodau ychwanegol os ydynt yn dymuno.

## Mae aelodaeth y BPRh ym Mehefin 2021 isod:


| | | |
|---|---|---|
| **Ann Lloyd** CBE | Cadeirydd BIPAB | BIPAB (Cadeirydd) |
| **Phil Robson** | Aelod Annibynnol | BIPAB (is-gadeirydd BPRh) |
| **Katija Dew** | Aelod Annibynnol | BIPAB |
| **Y Cyng. John Mason** | Aelod Gweithredol | Blaenau Gwent |
| **Y Cyng. Shayne Cook** | Aelod Gweithredol | Caerffili |
| **Y Cyng. Penny Jones** | Aelod Gweithredol | Sir Fynwy |
| **Y Cyng. Jason Hughes** | Aelod Gweithredol | Casnewydd |
| **Y Cyng. David Daniels** | Aelod Gweithredol | Torfaen |
| **Glyn Jones** | Prif Weithredwr Dros Dro | BIPAB |
| **Chris O'Connor** | Prif Swyddog Gweithredu | BIPAB |
| **Sarah Aitken** | Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus | BIPAB |
| **Tanya Evans** | Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau Cymdeithasol | Blaenau Gwent |
| **Dave Street** | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol | Caerphilly |
| **Jane Rodgers** | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol | Monmouthshire |
| **Sally Jenkins** | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol | Newport |
| **Jason O'Brien** | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol | Torfaen |
| **Paula Kennedy** | Prif Weithredwr | Cartrefi Melin |
| **Melanie Minty** | Fforwm Gofal Cymru | Cynrychiolydd Darparwyr |
| **Lorraine Morgan** | | Cynrychiolydd Trigolion |
| **Christine Kemp-Philp** | | Cynrychiolydd Trigolion |
| **Stephen Tiley** | GAVO | Third Sector Rep |
| **Malcom Prowle** | TVA | Cynrychiolydd y Trydydd Sector |
| **Will McLean** | Sir Fynwy | Cynrychiolydd Addysg |

# Atodiad 3: Porthol Trigolion DEWIS 2021/22




Cyfanswm y defnyddwyr cofrestredig (pobl sy'n golygu gwybodaeth, nid y cyhoedd sy'n chwilio'r safle gan fod hyn yn ddienw).


- **Mehefin 2021 - 1,961**
- **Mehefin 2022 - 2,417**




Golygon manylion adnodd yn y mis (cliciadau ar yr adnodd am wybodaeth bellach).

- **Mehefin 2021 - 16,549**
- **Mehefin 2022 - 26,568**

# Atodiad 3: Porthol Trigolion DEWIS 2021/22




**Ym Mehefin 2021, roedd yna 1,299 o adnoddau wedi eu cyhoeddi yng Ngwent, ac mae hyn wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf i 1,462 yng Ngorffennaf 2022.**

## Atodiad 4: Datblygiad y Gweithlu

Mae gofal cymdeithasol oedolion ac, yn arbennig, gofal yn y cartref yn parhau i fod yn ardal angen fwyaf Gwent. Serch hynny, ers y pandemig, mae darparwyr y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau plant hefyd wedi sôn am ddiffyg recriwtio fel pryder allweddol ac mae yna angen am weithwyr newydd ar draws y system gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol a nyrsys cofrestredig ar gyfer cartrefi nyrsio.

Mae prinder staff mewn gofal yn y cartref wedi cynyddu oedi mewn trosglwyddo gofal o ysbytai lleol, gan greu tagfeydd yn y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae diffyg recriwtio wedi cyfrannu'n sylweddol at ddychwelyd pecynnau gofal ar draws Gwent. O ganlyniad, mae prosiectau recriwtio rhanbarthol a chynlluniau a fabwysiadwyd yng Ngwent wedi eu hanelu'n bennaf at gefnogi recriwtio a chadw'r gweithlu o fewn gofal cymdeithasol ac, yn arbennig, gofal yn y cartref. Mae nifer o gynlluniau wedi eu datblygu i geisio cynyddu capasiti gofal yng Ngwent trwy recriwtio a chadw staff.

## Atodiad 5: Lleoliadau Gwaith

Mae Consortiwm Coleg Gyrfaoedd Gwent wedi datblygu fframwaith i hwyluso lleoliadau i fyfyrwyr o fewn BIPAB a thimau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol i ddarparu dysgu ar sail profiad a chyfleoedd datblygu i fyfyrwyr. Cyn datblygiad y fframwaith, doedd dim proses ffurfiol neu deg ar gyfer lleoliadau gwaith i fyfyrwyr, ac roedd rhain yn cael eu sicrhau, fel arfer, trwy berthnasau. Bydd lleoliadau nid yn unig yn helpu myfyrwyr i gael oriau gwaith ar gyfer cymhwyster ond hefyd i ehangu eu profiad a'u gwybodaeth o lwybrau gyrfa o fewn y sector a rhoi cyfleoedd ar gyfer recriwtio. Mae lleoliadau wedi eu heffeithio gan COVID-19, ond mae'r fframwaith yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.



# Atodiad 6: Gofal Micro

Mae'r Tîm Partneriaeth Rhanbarthol, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy yn edrych ar hyn o bryd ar gynllun gofal micro peilot i gefnogi capasiti a chyflenwad gofal lleol, gan roi dewis amgen yn lle'r ddarpariaeth gofal cartref traddodiadol.

## Mae tri maes allweddol wedi eu nodi ble gall gofalwyr micro gefnogi capasiti gofal lleol:

- Gallan nhw roi gofal i'r rheiny sy'n gallu ariannu eu gofal a'u cefnogaeth.
- Gallan nhw roi gofal i'r rheiny sy'n derbyn taliadau uniongyrchol.
- Gallan nhw gael eu comisiynu'n uniongyrchol gan ALlau i gyflenwi gofal ble gallai fod yna fylchau mewn darpariaeth.

Mae cynlluniau gofal micro wedi cael eu cyflwyno mewn rhanbarthau eraill fel ymateb i'r prinder cenedlaethol o weithwyr gofal ac i ddiwallu'r galw cynyddol am ofal yn y cartref, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ble mae recriwtio'n anodd. Os bydd yn llwyddiannus, yna gellid cynyddu'r cynllun peilot yn Sir Fynwy a gellir rhannu dysgu ag awdurdodau lleol eraill Gwent. Bydd y cynllun peilot yma'n mynd am 12 mis o Ebrill 2022 i Ebrill 2023.



# Atodiad 7: Deddf Galluedd Meddyliol

Mae deddfwriaeth bwysig y Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi ei diwygio ac wedi cyflwyno fframwaith cyfreithiol newydd, sef y Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid. Bydd y fframwaith yma'n disodli'r fframwaith presennol, y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid. Bydd y diwygiad yn cynnwys newidiadau i'r ffordd y mae gofal neu driniaeth yn cael eu hawdurdodi i bobl sydd heb alluedd i gydsynio, gan gynnwys y rheiny sydd 16 a throsodd.

## Bydd yn effeithio'n benodol ar bobl sy'n bodloni'r meini prawf canlynol i gyd, yn ogystal â'u gofalwyr neu bobl sydd yn eu cefnogi, naill ai gyda chyflog neu'n ddi-dâl:

- 16+
- Yn disgwyl neu'n derbyn gofal neu driniaeth.
- Heb alluedd i gydsynio i'r gofal neu driniaeth.
- Ble gallai'r gofal neu driniaeth hynny fod gyfystyr â cholli eu rhyddid.
- Ac mae'n berthnasol, waeth ble rydych chi neu rywun yn byw. Cartref eu hunain, cartref gofal, byw â chymorth, mynychu canolfan ddydd, seibiant neu'n aros mewn ysbyty.

Mae 5 Awdurdod Lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi gweithredu'r fframwaith cyfreithiol newydd yng Ngwent. Gyda'r ymgynghoriad yn fyw ers 17eg Mawrth 2022, mae Grŵp Llywio Trefniadau Diogelu Rhyddid, sy'n arwain ar weithredu ar ran y rhanbarth, wedi bod yn ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a phartneriaid i godi ymwybyddiaeth a chefnogi eu cyfranogiad yn yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd 7 gweithdy gyda dros 380 o staff yn cofrestru. Cynhaliwyd sesiwn pellach yn benodol ar gyfer sector tai Gwent a phartneriaid i gefnogi gwaith cyfranogol a chydweithredol i gynorthwyo cyflwyniad llwyddiannus. Cynhaliwyd nifer o sesiynau eraill gan gynnwys ymgysylltiad â meddygon, rhwydweithiau eiriolaeth a grwpiau cymunedol i ganfod barn gyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth.

Bydd y Ddeddf yn effeithio ar ofalwyr di-dâl sy'n rhoi gofal neu gefnogaeth yn y gymuned i bobl a allai fod yn brin o alluedd i gydsynio i'w gofal, ble mae'r gofal hynny gyfystyr â cholli rhyddid. Gydag effaith Covid-19 ar ofalwyr di-dâl a'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanynt, mae e hyd yn oed yn fwy pwysig ein bod ni'n gwrando ac yn rhannu barn gofalwyr di-dâl, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli. Trwy ymgysylltiad â rhanddeiliaid, gweithio gyda phartneriaid a phresenoldeb yn nigwyddiadau Wythnos Gofalwyr, rydym wedi gallu gwrando ar bryderon gofalwyr di-dâl. Mae'r ymgysylltiad yma wedi helpu i gasglu barn gofalwyr di-dâl ynglŷn â'r hyn sydd ei angen i'w cefnogi nhw a'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanynt trwy'r newid yma.

Rydym wedi gweithio gyda Phobl yn Gyntaf i ddatblygu deunydd hawdd ei ddarllen am y newidiadau ac wedi gwrando ar eu barn am y newidiadau yma. Gallwch wrando ar y podlediad yma Liberty Protection Safeguarding Consultation | Spreaker.

**I gefnogi staff, rydym wedi gweithio gyda Jammy Custard Animation Studios i ddatblygu animeiddiad am y Ddeddf Galluedd Meddyliol a’r Trefniadau Diogelu Rhyddid, y gallwch wylio yma:**

**https://youtu.be/NDbTOV7N9wc**